Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Ysgolion Sir Ddinbych. Blwyddyn Ysgol 2025 i 2026 Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr

# Cynnwys

Cynnwys ........................................................................................................2

1.0 Derbyn i Ysgolion.......................................................................................10

1.1 Sut i wneud cais ......................................................................................10

1.2 Gweithdrefnau Derbyniadau i Ysgol ........................................................10

1.2.1 Derbyn yn ystod y 'cylch derbyn arferol' ...............................................10

1.2.2 Trosglwyddo rhwng ysgolion.................................................................11

1.3 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac a Reolir .........................................12

1.4 Sut rydym yn cyfathrebu............................................................................13

1.4.1 Yn ystod y cylch derbyn arferol..............................................................13

1.4.2 Trosglwyddo rhwng ysgolion.................................................................13

1.5 Gwrthodiadau ...........................................................................................14

1.6 Rhestrau aros............................................................................................14

1.7 Apeliadau .................................................................................................14

1.8 Gwybodaeth ffug neu dwyllodrus ..............................................................15

1.9 Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol..............................................15

1.10 Addysg Gynnar.......................................................................................16

1.11 Addysg ar ôl oedran statudol ysgol (darpariaeth ôl-16) ...........................16

1.12 Y Gymraeg yn ysgolion Sir Ddinbych .....................................................17

1.12.2 'Ysgol addas agosaf' yn y cyfnod uwchradd (Cyfnod Allweddol 3 a 4) ................17

1.13 Meini prawf gordanysgrifio ..............................................................................23

1.13.1 Prif Feini Prawf ..........................................................................................23

1.13.2 Meini Prawf Eilaidd ....................................................................................24

1.14 Awdurdodau Cyfagos ............................................................................................24

2.0 Cludiant Ysgol am ddim ..........................................................................................25

2.1 Meini Prawf ............................................................................................................25

2.2 Gwneud cais am Gludiant i'r Ysgol...........................................................................25

2.3 Mannau codi.............................................................................................................25

3.0 Gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau Addysgol a pherthnasol.............................26

3.1 Cyfrifoldeb rhieni .....................................................................................................26

3.2 Mae pob diwrnod yn yr ysgol yn cyfri ......................................................................27

3.2.1 Y Gyfraith..............................................................................................................27

3.2.2 Penderfyniad yr ysgol ..........................................................................................28

3.2.3 Penderfyniad rhiant/rhieni ....................................................................................28

3.3 Y Cyfnod Sylfaen......................................................................................................29

3.3.1 Fframwaith y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen ............**Error! Bookmark not defined.**

3.4 Y Cwricwlwm Cenedlaethol......................................................................................31

3.5 Y Ddarpariaeth 14-19 oed ........................................................................................31

3.6 Cyngor gyrfaoedd.....................................................................................................31

3.7 Addysg Grefyddol....32

3.8 Y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol....33

3.9 Ysgolion iach....33

3.10 Llywodraethwyr Ysgol....34

3.11 Diogelu....34

3.12 Gwrth-fwlio....35

3.13 Y drefn gwynion cyffredinol....36

3.14 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych....36

3.15 Cyngor ar Hawliau Lles Cyngor Sir Ddinbych....37

3.16 Prydau Bwyd Ysgol am Ddim....37

3.17 Grant Gwisg Ysgol....38

3.18 Dyddiadau tymor....38

3.18.1 Dyddiau hyfforddi staff....39

3.19 Gwyliau teuluol yn ystod y tymor....39

3.20 Gwybodaeth am gau ysgolion....39

4.0 Polisïau Derbyniadau Ysgol - Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir....40

4.1 Ysgol Gatholic Crist y Gair....40

4.1.1 Sut i wneud cais....40

4.1.2 Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer llefydd cynradd....41

4.1.3 Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer llefydd uwchradd....41

4.1.4 Ceisiadau Hwyr....43

4.1.5 Diffiniad o Rieni....43

4.1.6 Diffiniad o Blentyn sy'n Derbyn Gofal....43

4.1.7 Plant Catholig....43

4.1.8 Cyfeiriad Cartref....44

4.1.9 Diffiniad o Frawd neu Chwaer....45

4.1.10 Plant o enedigaeth luosog....45

4.1.11 Rhestr aros....45

4.1.12 Ceisiadau 'Yn ystod y Flwyddyn'....46

4.1.13 Tynnu cynnig yn ôl....46

4.1.14 Addysg Meithrin....46

4.1.15 Hawl i Apelio....46

4.1.16 Penodi aelodau'r panel....47

4.1.17 Amserlen Trefniadau Derbyn: Amserlen Trefniadau Derbyniadau....47

4.2 Ysgol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant....47

4.2.1 Sut i wneud cais....47

4.2.2 Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgol....48

4.2.3 Derbyn i'r Ysgol Gynradd....48

4.2.4 Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael....49

4.2.5 Y penderfyniad olaf....50

4.2.6 Ceisiadau Hwyr....50

4.2.7 Rhestr aros....50

4.2.8 Apeliadau derbyn....51

4.2.9 Dyrannu Lleoedd Dosbarth Meithrin....51

4.2.10 Diffiniad o Rieni....52

4.2.11 Cyfrifoldeb Rhiant....52

4.2.12 Diffiniad o Frawd neu Chwaer....52

4.2.13 'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'....53

4.2.14 Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog....53

4.2.15 Sut y profir ymlyniad crefyddol....54

4.2.16 Adolygiad....54

4.3 Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Ffraid (Uwchradd)....54

4.3.1 Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Ffraid (Cynradd)....57

5.0 Gwybodaeth Ysgolion Sir Ddinbych....59

5.1 Ysgolion Cynradd....59

5.2 Ysgolion uwchradd....72

5.3 Ysgolion arbennig....76

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

**Adran: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Rhif Ffôn: 01824 708064

Cyfeiriad: Adran ADY, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/addysg

**Adran: Derbyniadau**

Rhif Ffôn: 01824 706000

Cyfeiriad: Derbyn i Ysgol, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: derbyniadau@sirddinbych.gov.uk www.sirddinbych.gov.uk/addysg, ar gyfer derbyniadau i grŵp chwarae, ffoniwch 01824 708064.

**Adran: Partneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd**

Rhif Ffôn: 01824 706000

Cyfeiriad: Partneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: partnership.support@sirddinbych.gov.uk, www.sirddinbych.gov.uk/cypp

**Adran: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

Rhif Ffôn: 01824 706000

Cyfeiriad: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Canolfan Margaret Morris, Ffordd Gwaenynog, Dinbych, LL16 3RU

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: fis@sirddinbych.gov.uk, www.sirddinbych.co.uk

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

**Adran: Prydau Ysgol am Ddim (cymhwysedd)**

Rhif Ffôn: 01824 7086000

Cyfeiriad: Adran Budd-daliadau, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, LL18 3DP

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: budd-daliadau@sirddinbych.gov.uk, www.sirddinbych.gov.uk/addysg

**Adran: Cyllid Myfyrwyr**

Rhif Ffôn: 0300 200 4050

Cyfeiriad: Cyllid Myfyrwyr Cymru, Blwch Post 211, Cyffordd Llandudno, LL30 9FU

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

**Adran: Cymhwysedd ar gyfer Cludiant Ysgol**

Rhif Ffôn: 01824 706000

Cyfeiriad: Cymhwysedd Cludiant, Ysgol Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: schoolsupport@sirddinbych.gov.uk, www.sirddinbych.gov.uk/addysg

**Adran: Hawliau Lles**

Rhif Ffôn: 03444 111 444

Cyfeiriad: Swyddfeydd yn: Dinbych, Rhuthun, Y Rhyl

Cyfeiriad e-bost / Gwefan: www.citizensadvice.org.uk

Os oes gennych chi ofynion iaith penodol, ac eithrio Cymraeg neu Saesneg, ac angen rhagor o wybodaeth, yn y lle cyntaf gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod, sy’n siarad Cymraeg neu Saesneg, i ffonio 01824 706000 ar eich rhan.

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

**Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag addysg gynradd, uwchradd ac arbennig i:-**

**Derbyniadau i Ysgol**
**Cymorth Addysg**
**Cyngor Sir Ddinbych**
**Blwch Post 62**
**Rhuthun**
**LL15 9AZ**

Neu gallwch gysylltu gyda ni drwy'r dulliau isod:-
**Ffôn:** 01824 706000
**E-bost:** derbyniadau@sirddinbych.gov.uk
**Gwefan:** www.sirddinbych.gov.uk/addysg

Yn y llyfryn hwn, rydym yn defnyddio'r gair 'rhiant/rhieni' ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr plentyn

# 1.0 Derbyn i Ysgolion

### 1.1 Sut i wneud cais

Gallwch gael mynediad at yr holl ffurflenni cais ar wefan Sir Ddinbych. Gallwch lenwi cais ar-lein. Mae ffurflenni papur ar gael ar gais drwy gysylltu â Derbyniadau@sirddinbych.gov.uk – bydd y cyfeiriad anfon yn ôl ar y ffurflen.

Os byddwch yn gwneud cais drwy'r post, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn sicrhau prawf postio rhag ofn y bydd yn mynd ar goll. Rydym yn darparu cydnabyddiaeth ein bod wedi ei gael o fewn 5 diwrnod gwaith ar gyfer rhieni sy'n gofyn am un - os na fyddwch wedi cael derbynneb o fewn yr amser yma, cysylltwch â ni. Bydd rhieni sy'n ymgeisio ar-lein yn cael derbynneb yn awtomatig ar yr amod eu bod wedi nodi eu cyfeiriad e-bost yn gywir.

### 1.2 Gweithdrefnau Derbyniadau i Ysgol

Mae dwy broses yn arbennig y bydd angen i rieni eu nodi: trosglwyddo rhwng ysgolion a mynediad yn ystod y 'cylch derbyn arferol'.

## 1.2.1 Derbyn yn ystod y 'cylch derbyn arferol'

Mae'r 'cylch derbyn arferol' yn cyfeirio at ddechrau yn yr ysgol yn y dosbarth Meithrin, Derbyn, Iau (Blwyddyn 3) ac Uwchradd (Blwyddyn 7) ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi, fel isod:

- Meithrin – rhaid geni plentyn rhwng 01/09/2021 & 31/08/2022
- Derbyn – rhaid geni plentyn rhwng 01/09/2020 & 31/08/2021
- Iau – rhaid geni plentyn rhwng 01/09/2017 & 31/08/2018
- Uwchradd – rhaid geni plentyn rhwng 01/09/2013 & 31/08/2014

*(Os nad yw eich plentyn yn ddigon hen i fynd i'r dosbarth Meithrin, gallwch wneud cais yn uniongyrchol at grŵp chwarae o'ch dewis, a gwneud cais am arian yn ddiweddarach gan y tymor ysgol ar ôl ei ben/phen-blwydd yn 3 oed)*

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

Mae dwy ysgol iau yn Sir Ddinbych - Ysgol Frongoch, Dinbych ac Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy

Mae'r amserlen ar gyfer cylch derbyniadau 2024 fel a ganlyn:

- Meithrin – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/02/2025. Bydd y canlyniadau ar gael ar 06/05/2025.
- Derbyn – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/02/2025. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2025.
- Iau – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 18/11/2024. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2025.
- Uwchradd – mae ceisiadau ar gael o 02/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 04/11/2024. Bydd y canlyniadau ar gael ar 03/03/2025.

Rhaid i bob cais gyrraedd yr adran Derbyniadau i Ysgol erbyn y dyddiadau a nodir uchod, hyd at 11:59PM ar y diwrnod hwnnw. Ni fydd ffurflenni a anfonir i ysgolion erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried hyd nes y byddant yn cyrraedd yr adran Derbyniadau i Ysgol (sylwer: nid yw'r ysgolion yn gyfrifol am anfon eich ffurflen (ni) atom ni).

Bydd unrhyw geisiadau y byddwn yn eu cael ar ôl y dyddiad cau perthnasol yn cael eu trin fel rhai hwyr, a fydd yn effeithio ar y tebygolrwydd o dderbyn eich plentyn i'ch dewis ysgol. Os byddwn yn cael eich ffurflen gais erbyn y dyddiad cau, bydd yn cael ei ystyried yn gyfartal â'r lleill a chyn y ceisiadau hwyr.

### 1.2.2 Trosglwyddo rhwng ysgolion

Efallai y bydd angen ar ryw adeg yn ystod addysg eich plentyn i drosglwyddo o un ysgol i un arall. Efallai y byddwch am drosglwyddo eich plentyn am unrhyw resymau, ond gall symud ysgolion effeithio ar addysg eich plentyn, felly dylai symud o un ysgol i'r llall fod yn ddewis olaf pan fydd pob ffordd arall wedi'i ystyried a'i hysbyddu – dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys y sefyllfa cyn cyflwyno ffurflen gais. Dylai rhieni geisio rhagor o gyngor wrth ystyried trosglwyddo eich plentyn (7 i 11 oed) i ysgol cyfrwng Cymraeg, os nad yw eich plentyn wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg ffurfiol yn flaenorol.

Caiff ceisiadau trosglwyddo eu prosesu yn y drefn y deuant i law. Nid oes unrhyw geisiadau 'hwyr' ar gyfer y broses drosglwyddo ysgol, a dim ond ar ddechrau tymor ysgol newydd y bydd plant yn gallu trosglwyddo fel arfer.

### 1.3 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac a Reolir

Ysgolion ffydd sy'n ymdrin â'u prosesau derbyn i ysgol eu hunain yw ysgolion o dan y categori 'a gynorthwyir yn wirfoddol'. Yr ysgolion hyn yw:

- Ysgol Trefnant, Trefnant (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)
- St. Brigid's, Dinbych (ysgol ganol Gatholig, addysg cyfrwng Saesneg)
- Ysgol Gatholig Crist y Gair, y Rhyl (ysgol ganol Gatholig, addysg cyfrwng Saesneg)

Yr ysgolion ffydd yr ymdrinnir â hwy gan yr awdurdod lleol (ysgolion 'a reolir yn wirfoddol') yw:

- Ysgol Tremeirchion, Tremeirchion (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Cymraeg)
- Ysgol Fabanod Llanelwy, Llanelwy (ysgol fabanod Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)
- Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy (ysgol iau Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)
- Ysgol Pant Pastynog, Prion (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Cymraeg)
- Ysgol Borthyn, Rhuthun (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)
- Ysgol Llanfair, Llanfair DC (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg Ddwy Iaith)

- Ysgol Llanbedr, Llanbedr DC (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)
- Ysgol Dyffryn Ial, Llandegla, (Ysgol gynradd Yr Eglwys yng Nghymru, addysg cyfrwng Saesneg)

Gweler adran 4 ar gyfer polisi derbyn pob ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol.

### 1.4 Sut rydym yn cyfathrebu

Rydym yn cyhoeddi ein holl benderfyniadau yn ysgrifenedig, oni bai ein bod yn cael cais i drosglwyddo i ysgol arall - yn yr achosion hynny byddwch yn cael galwad ffôn naill ai gan yr adran Derbyniadau i Ysgol neu aelod o staff yr ysgol newydd. Byddwch yn gallu dewis ar eich cais a ydych am gael ymateb drwy'r post neu drwy e-bost gennym.

Mae ‘ysgolion ganolig’ yn cyfeirio at ysgolion sy’n cynnig addysg gynradd ac uwchradd.

Mae ‘ddwy iaith’ yn cyfeirio at ysgolion sy’n cynnig addysg Gymraeg a Saesneg.

### 1.4.1 Yn ystod y cylch derbyn arferol

Byddwn yn ymateb drwy e-bost neu drwy'r post ar y dyddiau a nodir yn adran 1.2.1, neu'r diwrnod gwaith nesaf os bydd ar benwythnos. Rydym yn ymateb i ymgeiswyr hwyr cyn gynted ag y gallwn, ond gall hyn gymryd ychydig wythnosau, yn dibynnu ar nifer y ceisiadau derbyn y byddwn yn delio â hwy ar y pryd.

### 1.4.2 Trosglwyddo rhwng ysgolion

Mae gennym 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr (pa un bynnag ddaw gyntaf) i wneud penderfyniadau ar geisiadau trosglwyddo, ond rydym yn anelu i brosesu pob cais ymhell o fewn yr amser hwn - fel arfer tua un wythnos - yn dibynnu ar nifer y ceisiadau derbyn a geir ar adeg eich cais.

## 1.5 Gwrthodiadau

Os na fyddwch yn llwyddo i gael lle yn eich dewis ysgol (yn y naill broses), byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam. Y prif reswm dros wrthod cais yw diffyg lle yn y grŵp blwyddyn dan sylw i fwy o blant a bod yr ysgol wedi cyrraedd cyfanswm nifer y derbyniadau posibl – felly byddai derbyn un neu fwy nag un plentyn arall yn rhagfarnu'r rheiny sydd eisoes yn yr ysgol.

Bydd gwybodaeth ynglŷn ag apelio yn cael ei darparu ym mhob achos, oni bai bod/y bydd eich plentyn o oedran Meithrin – ni ellir apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle meithrin gan nad yw'n addysg orfodol.

### 1.6 Rhestrau aros

Os yw cais derbyn wedi'i wrthod, gall y rhieni wneud cais i roi eu plentyn ar rest aros. Yn ystod y cylch derbyn arferol fe wneir hyn yn awtomatig hyd at 30ain o Fedi. Os ydych wedi bod yn aflwyddiannus yn cael lle yn yr ysgol o'ch dewis, a bod lle yn dod ar gael tra byddwch yn dal i fod ar y rhestr aros, bydd eich plentyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phawb arall ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol honno a'r flwyddyn ysgol hynny. Rydym yn defnyddio ein 'meini prawf gordanysgrifio' i benderfynu pa blant sydd fwyaf cymwys i gael lle (gweler adran 1.13 am fanylion).

### 1.7 Apeliadau

Caiff apeliadau eu clywed gan banel annibynnol, sy'n cynnwys tri o bobl nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â'r awdurdod lleol. Os ydych yn ystyried apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle mewn dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2, mae amgylchiadau'r panel annibynnol i allu gwrthdroi ein penderfyniad yn gyfyngedig iawn, os yw'r gwrthodiad yn seliedig ar Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod. Sef:

- Mae'n amlwg y byddai eich plentyn wedi cael lle pe baem wedi ymdrin yn briodol â'r ceisiadau ar gyfer yr ysgol y gofynnwyd amdani

- Nid yw ein polisi yn cydymffurfio â'r gyfraith, a byddai eich plentyn wedi cael cynnig pe byddai yn cydymffurfio
- Nid yw ein penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi ei wneud

Ar gyfer derbyniadau blwyddyn academaidd 2023, cawsom yr apeliadau cylch derbyn arferol canlynol:

**Ysgol: Ysgol Uwchradd y Rhyl**

Apeliadau: 19

Llefydd wedi'u Rhoi: 9

Wedi'u Gwrthod: 10

I ddechrau'r broses apelio, mae'n rhaid i ni gael ffurflen apêl wedi'i chwblhau yn llawn.

## 1.8 Gwybodaeth ffug neu dwyllodrus

Pan fyddwn yn ystyried ai eich dewis ysgol yw'r agosaf at eich cartref, a phan gaiff pellter ei ddefnyddio i lunio rhestr fer o geisiadau, byddwn yn defnyddio cyfeiriad parhaol y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol ac nid perthnasau eraill.

Os gwnaethoch gais ar amser ac y bu i ormod o geisiadau am eich dewis ysgol gyrraedd erbyn y dyddiad cau, byddwn yn gofyn am brawf preswylio. Os byddwn yn dysgu bod y prawf yn ffug neu'n dwyllodrus hyd yn oed ar ôl i gynnig gael ei wneud, byddwn yn cael gwared ar y cynnig. Bydd gennych yr hawl i wneud cais eto am yr un ysgol, ac os caiff ei wrthod, gallwch apelio.

## 1.9 Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Amcan yr Awdurdod Lleol yw gwneud darpariaeth addysgol addas a pherthnasol ar gyfer holl blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, boed gyda neu heb Cynllun Datblygu Unigol (CDU) fel eu bod yn medru datblygu i'w potensial llawn.

Mae plant cyn oedran ysgol gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hadnabod gan asiantaeth allanol. Bydd plant mewn oedran ysgol gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn

cael eu hadnabod yn y lle cyntaf gan staff ysgol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Ar ôl cyfnod o ymyrraeth benodol ac yn dibynnu ar lefel yr angen, bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hasesu gan dîm o weithwyr proffesiynol, a all gynnwys Seicolegwyr Addysg, athrawon gyda sgiliau penodol ac arbenigwyr mewn meddyginiaeth gymunedol. Gwneir trefniadau wedyn i gyflwyno darpariaeth addysgol addas.

Os yw CDU yn nodi ysgol benodol, yna gall y disgybl fod yn ddisgybl disgwyliedig a chael lle yn yr ysgol, hyd yn oed os yw hynny yn golygu y bydd mwy o blant yn y flwyddyn na'r nifer derbyn. Felly, os yw hynny'n briodol ac yn unol â dewis y rhieni, bydd darpariaeth ar gael mewn ysgolion prif ffrwd. Gall rhieni sy'n dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir mewn CDU, neu yn erbyn y ffaith nad oes ysgol wedi'i henwi, apelio at Dribiwnlys Addysg Cymru.

## 1.10 Addysg Gynnar

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Awdurdodau Lleol i gynnig lleoedd 10 awr wedi'u hariannu i blant ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r Awdurdod yn ariannu lleoedd ar gyfer tymor y Gwanwyn a'r Haf i blant sy'n troi'n 3 oed cyn 31ain Rhagfyr, a lleoedd ar gyfer tymor yr haf i blant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed cyn 31ain o Fawrth.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ariannu lleoedd o fewn meithrinfeydd a gynhelir/nas cynhelir, ac er mwyn cael cyllid, mae'n rhaid i'r lleoliadau fod wedi'u cofrestru â Thîm Dysgu Sylfaen Cyngor Sir Ddinbych ac ESTYN i sicrhau safonau uchel a darpariaeth o safon. Mae'n rhaid i leoliadau nas cynhelir hefyd fod wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Er mwyn cofrestru plentyn ar gyfer Addysg Gynnar, bydd angen copi o dystysgrif geni'r plentyn a phrawf o gyfeiriad. Dim ond ar ôl i'r tîm dderbyn cais ar-lein mae modd darparu cyllid.

I wneud cais am 10 awr o Addysg Gynnar wedi'i hariannu, dylai rheini siarad gyda'r lleoliad maent wedi'i ddewis neu fynd i dudalen we 'Addysg Gynnar Sir Ddinbych' am fwy o wybodaeth.

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/gofal-plant-a-rhianta/addysg-gynnar/addysg-gynnar-10-awr-o-addysg-wedii-ariannu.aspx

## 1.11 Addysg ar ôl oedran statudol ysgol (darpariaeth ôl-16)

Mae'r holl bobl ifanc yn cwblhau eu cyfnod o addysg statudol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol y byddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 16 oed, gallant symud ymlaen i ddilyn y llwybr mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Gallai'r llwybr hwn fod mewn addysg bellach yn y chweched dosbarth neu goleg, hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith neu gyflogaeth. Ceir mynediad at y cyfleoedd hyn drwy'r Broses Ceisiadau Cyffredin ar Gyrfa Cymru Ar-lein. Mae manylion cyswllt yr holl ddarparwyr ar gael trwy Gyrfa Cymru Ar-lein.

## 1.12 Y Gymraeg yn ysgolion Sir Ddinbych

Gall rhieni wneud cais am le mewn unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg, a bydd yr Awdurdod yn gwneud cynnig os bydd lle ar gael. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf sydd yn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr. Pan fyddwn wedi cael mwy o geisiadau ar gyfer ysgol nag sydd yna o leoedd, yna yr 'ysgol addas agosaf' yw'r ysgolion agosaf cyfrwng Cymraeg i gyfeiriad cartref y disgybl hyn.

- Mae tîm ymgynghorol y Gymraeg yn darparu cymorth dwys â'r Gymraeg i ddisgyblion 7 i 11 oed sy'n trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg ac sydd heb gael addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenorol.

Os bydd rhieni'n mynegi dewis am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â'r polisi cludiant.

### 1.12.2 'Ysgol addas agosaf' yn y cyfnod uwchradd (Cyfnod Allweddol 3 a 4)

Yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yw:

**Enw ysgol: Ysgol Brynhyfryd**

Categori iaith: 2

Tref/ardal: Rhuthun

**Enw ysgol: Ysgol Dinas Bran**

Categori iaith: 2

Tref/ardal: Llangollen

**Enw ysgol: Ysgol Glan Clwyd**

Categori iaith: 3

Tref/ardal: Llanelwy

Fodd bynnag, gall rhai preswylwyr Sir Ddinbych fwy yn agosach at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r sir. Sef:

**Enw ysgol: Ysgol Y Berwyn**

Categori iaith: 3

Tref/ardal: Bala

Awdurdod lleol: Gwynedd

**Enw ysgol: Ysgol Morgan Llwyd**

Categori iaith: 3

Tref/ardal: Rhosnesni

Awdurdod lleol: Wrecsam


**Enw ysgol: Ysgol Maes Garmon**

Categori iaith: 3

Tref/ardal: Yr Wyddgrug

Awdurdod lleol: Sir Fflint

At ddibenion gordanysgrifio a chymhwyster cludiant, yr 'ysgol addas agosaf' yw'r ysgol agosaf i gyfeiriad cartref y disgybl.




**<u>Categori 1 – Ysgol Cyfrwng Saesneg</u>**

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

**<u>Categori 2 - Ysgol Dwy Iaith</u>**

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr.

Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3.


Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn eraill, neu, bod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.

**Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.

O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.




**Categori 1 - Ysgol Cyfrwng Saesneg**

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn cael ei addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a bydd yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

**Categori 2 - Ysgol Dwy Iaith**

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan ddibynnu ar faint o amser a neilltuir i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, byddai dysgwyr yn gallu defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn ystod o wahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Bydd o leiaf 40% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 40% o weithgareddau ysgol (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

## Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg

Mae ysgolion yn y categori hwn wedi'u rhannu'n ddwy ran: Categori 3 Cyfrwng Cymraeg a Chategori 3P Cyfrwng Cymraeg penodedig.

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.

Mae'r rhain yn ysgolion sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu.

Bydd ysgol Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd o leiaf 60% o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Bydd disgwyl i bob ysgol Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal tra'n gweithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.

Bydd ysgol Categori 3P – Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penodedig yn cyflwyno pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd 100% o ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf 90% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

## 1.13 Meini prawf gordanysgrifio

Os bydd mwy o rieni yn ffafrio ysgol benodol nag sydd o le yn yr ysgol honno, yna defnyddir meini prawf gordanysgrifio.

### 1.13.1 Prif Feini Prawf

| | |
|---|---|
| **1.** | Plant sydd â statws Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sydd wedi Derbyn Gofal yn flaenorol |
| **2.** | Plant sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n enwi'r ysgol dan sylw |
| **3.** | Plant lle mai'r ysgol ddewisol yw'r 'ysgol addas' agosaf yn ôl y llwybr cerdded byrraf o ystyried oedran y plentyn, a dewis yr ymgeisydd o ran ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd (ar gyfer ysgolion sy'n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru) |
| **4.** | Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ddymunol ar y dyddiad derbyn disgwyliedig |
| **5.** | Plant genedigaethau lluosog, y mae eu brodyr neu chwiorydd wedi gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn |
| **6.** | Plant nad ydynt yn cymhwyso dan feini prawf 1-5, wedi eu trefnu yn ôl y pellter o'u cartref i lidiart yr ysgol ddymunol, wedi ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf |

### 1.13.2 Meini Prawf Eilaidd

| | |
|---|---|
| **1.** | Plant sydd â statws Plant sy’n Derbyn Gofal a Phlant sydd wedi Derbyn Gofal yn flaenorol |
| **2.** | Plant sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy’n enwi’r ysgol dan sylw |
| **3.** | Plant lle mai’r ysgol ddewisol yw'r 'ysgol addas' agosaf yn ôl y llwybr cerdded byrraf o ystyried oedran y plentyn, a dewis yr ymgeisydd o ran ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd (ar gyfer ysgolion sy’n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru) |
| **4.** | Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ddymunol ar y dyddiad derbyn disgwyliedig |
| **5.** | Plant y mae eu hysgol gynradd/iau yn ysgol fwydo ddynodedig* ar gyfer yr ysgol uwchradd y gwneir cais amdani |
| **6.** | Plant genedigaethau lluosog, y mae eu brodyr neu chwiorydd wedi gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn |
| **7.** | Plant nad ydynt yn cymhwyso dan feini prawf 1-6, wedi eu trefnu yn ôl y pellter o’u cartref i lidiart yr ysgol ddymunol, wedi ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf |

* Fe ystyrir bod ysgol gynradd/iau plentyn yn ysgol ‘fwydo’ os mai’r ysgol, ar adeg ymuno â’r ysgol, oedd yr ysgol addas agosaf i gartref y plenty bryd hynny.

## 1.14 Awdurdodau Cyfagos

Os ydych chi’n byw yn Sir Ddinbych ac yn dymuno dewis ysgol mewn awdurdod cyfagos, dylech lenwi’r ffurflen briodol gan Gyngor Sir Ddinbych a’i dychwelyd i Adran Derbyniadau i Ysgol Cyngor Sir Ddinbych (manylion cyswllt ar dudalen 3). Mae Sir Ddinbych yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos ynglŷn â threfniadau derbyn.

**Awdurdodau Lleol: Conwy**
Adrannau Derbyniadau, rhif ffôn: 01492 575592

**Awdurdodau Lleol: Sir y Fflint**

Adrannau Derbyniadau, rhif ffôn: 01352 704068

**Awdurdodau Lleol: Gwynedd**

Adrannau Derbyniadau, rhif ffôn: 01286 679904

**Awdurdodau Lleol: Wrecsam**

Adrannau Derbyniadau, rhif ffôn: 01978 298991

## 2.0 Cludiant Ysgol am ddim

### 2.1 Meini Prawf

Bydd cludiant ysgol am ddim yn cael ei roi i'r ysgol addas agosaf ar yr amod bod y maen prawf pellter yn cael ei fodlon, sydd ar hyn o bryd yn:

- 2 filltir neu fwy ar gyfer disgyblion oed cynradd, a
- 3 milltir neu fwy ar gyfer disgyblion oedran uwchradd

Os nad yw eich plentyn yn gymwys o dan y maen prawf pellter, efallai y bydd cludiant am ddim i'r ysgol ar gael yn amodol ar rai lwfansau dewisol penodol. I gael y manylion llawn ewch i wefan Sir Ddinbych a gweld ein Polisi Cludiant i Ddysgwyr.

Yr ysgol addas agosaf yw ysgol sy'n darparu addysg sy'n briodol i oedran, gallu, cymhwyster y dysgwr, ac unrhyw anghenion dysgu allai fod ganddynt

### 2.2 Gwneud cais am Gludiant i'r Ysgol

Gallwch wneud cais ar-lein ar wefan Sir Ddinbych. Gallwch hefyd ofyn am y ffurflen drwy e-bostio schoolsupport@denbighshire.gov.uk. I ganfod eich ysgol agosaf defnyddiwch y cyfleuster chwilio fesul cod post ar ein gwefan.

Os oes gan eich plentyn anghenion ychwanegol bydd arnoch chi angen gwneud cais yn uniongyrchol i'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn asesu cludiant. Mae eu ffurflenni ar gael ar wefan Sir Ddinbych ac mae eu manylion cyswllt ar dudalen 3.

### 2.3 Mannau codi

Ar gyfer Cludiant Ysgol Uwchradd mae Sir Ddinbych yn defnyddio mannau codi mewn lleoliadau addas i ddisgyblion i gael mynediad at gludiant i'r ysgol ac yn ôl. Bydd manylion eich mannau codi lleol yn cael eu rhoi gan Adran Cludiant Teithwyr unwaith y bydd eich cais wedi'i gymeradwyo.

## 3.0 Gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau Addysgol a pherthnasol

### 3.1 Cyfrifoldeb rhieni

Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y cysyniad o gyfrifoldeb rhieni ac mae'n cael ei ddiffinio fel: "Holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo."

Mae canllaw i'r ddeddf yn datgan bod cyfrifoldeb rhiant yn ymwneud â "magu'r plentyn, gofalu amdano a gwneud penderfyniadau amdano, ond nid yw'n effeithio ar berthynas rhiant a phlentyn am bwrpas arall. Felly, os oes gan riant gyfrifoldeb rhiant am blentyn neu beidio, nid yw'n effeithio unrhyw oblygiadau tuag at y plentyn, megis dyletswydd statudol i'w gynnal."

Mae angen i ysgolion gael gwybod gan bwy mae "cyfrifoldeb rhiant" am bob plentyn sydd wedi cofrestru yn yr ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod awdurdod priodol yn cael ei roi pan fo ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad yw'r plant yn byw gyda nhw, yn cael adroddiadau ysgol a chael cyfle i fod yn rhan o addysg eu plentyn. Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys.

Cael Cyfrifoldeb Rhiant:

- Mae gan famau biolegol gyfrifoldeb rhiant am blentyn bob amser.
- Gall tadau fod â chyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod gyda'r fam ar adeg geni'r plentyn. Mae'r cyfrifoldeb yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi, hyd yn oed os nad yw'r plentyn yn byw gydag ef.
- Mae gan dadau dibriod gyfrifoldeb rhiant lle bo'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (mae hyn yn newid i Ddeddf Plant 1989 a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol).
- Gall tadau, llys rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff ysgol drwy ddarparu manylion am yr unigolion â chyfrifoldeb rhiant am blentyn i'r ysgol. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyfrifoldeb rhiant neu drefniadau gofal o ddydd i ddydd y plentyn.

### 3.2 Mae pob diwrnod yn yr ysgol yn cyfri

Mae'n rhaid i rieni gael caniatâd am bob absenoldeb, gan gynnwys gwyliau yn ystod amser tymor, drwy gysylltu â'r ysgol a gwneud cais am 'ffurflen cais am absenoldeb'. Mae'n rhaid llenwi hon a'i dychwelyd i'r ysgol cyn unrhyw absenoldebau. Ceir rhestr o ddyddiadau'r tymhorau/gwyliau ysgol ar www.sirddinbych.gov.uk/addysg.

#### 3.2.1 Y Gyfraith

Mae'r gyfraith yn cynghori nad oes gan rieni'r hawl i gymryd eu plant/plentyn o'r ysgol am wyliau yn ystod tymor yr ysgol. Dan amgylchiadau eithriadol gall Benaethiaid (neu yn eu habsenoldeb, Dirprwy Benaethiaid) ganiatáu i rieni fynd â'u plentyn/plant o'u dosbarth am hyd at ddeg diwrnod mewn blwyddyn ysgol. Os yw rhieni yn mynd â'u plentyn/plant ar wyliau heb ganiatâd yr ysgol, neu os nad yw'r plentyn/plant yn dychwelyd ar y dyddiad cytunedig, cofnodir hyn fel absenoldeb diawdurdod (triwantiaeth). Os yw'r plentyn wedi bod yn absennol yn barhaus am 20 diwrnod, gallai hyn arwain at i'r rhieni orfod wneud cais am le i'w plentyn/plant mewn ysgol wahanol.  Gall rhieni dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig (dirwy) gan yr Awdurdod Lleol hefyd.

### 3.2.2 Penderfyniad yr ysgol

Wrth benderfynu p’un ai i ganiatáu absenoldeb yn ystod tymor yr ysgol bydd yr ysgol yn ystyried:-

- oedran y plentyn;
- adeg a hyd yr absenoldeb;
- record presenoldeb y plentyn;
- absenoldebau blaenorol yn ystod tymor yr ysgol.

Mae’n bwysig bod rhieni yn ystyried goblygiadau mynd â’u plentyn o’r ysgol yn ystod y tymor yn ofalus iawn.

**Dim ond 190 o ddiwrnodau ysgol statudol a geir mewn blwyddyn. Felly mae 175 o ddyddiau (penwythnosau a gwyliau ysgol) ar gael i’w defnyddio ar gyfer gwyliau, na fyddai’n cael effaith negyddol ar addysg plentyn. Mae pob diwrnod yn yr ysgol yn bwysig i bob plentyn.**

### 3.2.3 Penderfyniad rhiant/rhieni

Yr hyn y dylai rhieni ei ystyried:-

Mae yna adegau yn ystod blwyddyn ysgol pan fyddai plentyn yn wynebu problemau penodol oherwydd absenoldeb yn ystod y tymor, megis:-

- anfanteision os yw’n agos at adeg arholiadau/profion;
- anfanteision yn enwedig yn ystod arholiadau TGAU, gwaith cwrs ac astudiaethau terfynol ym Mlynyddoedd 10 ac 11;
- problemau ymgartrefu yn ystod y flwyddyn gyntaf mewn ysgol newydd, yn enwedig ar adeg trosglwyddo o Flwyddyn 6 cynradd i Flwyddyn 7 yn yr uwchradd;
- plant y mae arnynt angen cymorth mewn pynciau penodol i gael mynediad i’r holl gymorth addysgol a gynigir;

- gall rhai plant ei chael yn anodd adnewyddu eu cyfeillgarwch gyda'u cyd-ddisgyblion ar ôl dychwelyd i'r ysgol;
- gall plant fethu gwaith grŵp gwerthfawr gyda disgyblion eraill na ellir ei ailadrodd;
- gallai greu embaras a gostwng hunan barch plentyn os yw'n gorfod gofyn am gymorth i ddal i fyny ymhob gwers;
- gallai darfu ar ddisgyblion eraill yn y gwersi pan fo angen cymorth ychwanegol ar blentyn i ddal i fyny gyda'r hyn a fethwyd;
- methu'r "Wythnos Anwytho" pan fo disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'u hysgol uwchradd newydd, i ymgyfarwyddo gyda chynllun gosod a'r drefn yn eu hysgol newydd.

Dylai rhieni ystyried y neges negyddol maent yn ei chyfleu i'r plentyn drwy adael iddynt feddwl ei bod yn dderbyniol methu'r ysgol.

### 3.3 Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn weledigaeth ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 mlwydd oed. Mae'n gontinwwm, a phob dysgwr yn dilyn yr un cwricwlwm ar lefel sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu nhw. Y pedwar diben yw'r weledigaeth a'r uchelgais gyffredin ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Cwricwlwm ysgol neu leoliad yw popeth mae dysgwr yn ei brofi wrth geisio cyflawni'r pedwar diben. Nid beth sy'n cael ei ddysgu yn unig yw hyn, ond sut mae'n cael ei ddysgu ac, yn allweddol, pam mae'n cael ei ddysgu.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, bydd cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau a datblygu gwybodaeth a sgiliau maent eu hangen ar gyfer gwaith a dysgu gydol oes ac i fod yn ddinasyddion gweithredol.

### 3.3.1 Dysgu Sylfaen

Mae Dysgu Sylfaen yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru 3 i 16 oed ac mae wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu a datblygu penodol plant hyd at 8 mlwydd oed neu ddysgwyr sydd ag anghenion datblygu ychwanegol. Mae Dysgu Sylfaen yn canolbwyntio ar ddulliau addysgeg sy'n gonglfaen i addysg a datblygiad pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar, neu ddysgwyr sydd efallai ag anghenion datblygiadol tebyg.

Mae Dysgu Sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth plant drwy'r nodweddion canlynol:

- Chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae – Mae chwarae yn hawl sylfaenol i bob dysgwr. Mae'n rhan o natur plant i fod eisiau chwarae. Drwy chwarae a chael profiadau chwareus, mae dysgwyr yn gallu dod o hyd i ffyrdd o brofi amrywiaeth o emosiynau a dysgu am y byd maent yn byw ynddo gydag eraill.
- Bod yn yr awyr agored – Mae bod yn yr awyr agored yn benodol bwysig i ddysgwyr yn y cyfnod hwn o ddysgu. Gall dysgu yn yr awyr agored wneud i blant deimlo'n dda, datblygu eu hyder a'u helpu i ymgysylltu. Pan maent y tu allan, gall dysgwyr ymarfer, gwella ac arbrofi â'u sgiliau.
- Arsylwi – Dylai arsylwi fod yn rhan allweddol o waith beunyddiol ymarferwyr. Drwy arsylwi, byddant yn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Dylai arsylwi arwain at ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr ar y pryd hwnnw a dylai ymarferwyr ymwrthod â'r temtasiwn i frysio drwy sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau gan y gall hyn gael effaith niweidiol ar ddysgu.
- Chwarae go iawn, bwriadol – Mae dysgu'n fwy effeithiol pan mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn rhan weithredol o brofiadau sy'n ennyn eu diddordeb, yn tanio'u dychymyg, yn ysgogi chwilfrydedd ac yn hybu agwedd gadarnhaol. Dylai'r profiadau hyn annog dysgwyr i ymchwilio, arbrofi, creu a chymryd rhan o'u gwirfodd yn eu haddysg. Bydd profiadau perthnasol ac ystyrlon sydd â'u gwreiddiau mewn cyd-destunau bywyd-go-iawn yn galluogi dysgwyr i ffurfio cysylltiadau, defnyddio'u gwybodaeth a chryfhau eu sgiliau.

### 3.4 Cynnig y Cwricwlwm

Yn ystod addysg gynradd ac ar gyfer blynyddoedd cyntaf addysg uwchradd (blynyddoedd 7, 8 a 9) mae pob ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys yn seiliedig ar 6 maes dysgu a phrofiad:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae’r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 14 i 16 oed yn wahanol i’r rhai ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 3 i 14 oed. Mae hyn er mwyn cyfrif am y dewisiadau mae dysgwyr yn eu gwneud ym mlwyddyn 9 ynglŷn â rhai o’r cyrsiau astudio sy’n arwain at gymwysterau.

### 3.5 Y Ddarpariaeth 14-19 oed

Mae’r holl bobl ifanc yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych yn gallu dilyn ystod eang o gyrsiau ar gyfer gwahanol anghenion a dyheadau’r unigolion. Mae’r Cyngor Sir yn sicrhau bod pob dysgwr 14 oed yn cael cynnig ystod eang o gyrsiau i gydnabod Hawl i Ddysgu 14-16 newydd Cymru. Fel y cam olaf yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae’r hawl yn sicrhau bod cynnig y cwricwlwm rhwng 14 ac 16 oed yn bwrpasol, yn eang ac yn briodol. O fis Medi 2025 ymlaen, bydd dysgwyr yn dechrau dilyn y TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, yn ogystal â chyrsiau sgiliau a galwedigaethol cyfredol, gyda rhagor o gymwysterau sgiliau a galwedigaethol newydd ar gael o fis Medi 2027 ymlaen. Bydd yr hawl hefyd yn blaenoriaethu cymorth i ddysgwyr i fod yn fwy effeithiol, addysg ynghlwm â gyrfaoedd a gwaith, yn ogystal â chefnogaeth sylweddol gyda dewisiadau ar gyfer eu llwybr ôl-16.
Mae ystod eang ac amrywiol o gyrsiau Safon Uwch a galwedigaethol ar gael i bob person ifanc ar y cam ôl-16, o fewn Sir Ddinbych.

### 3.6 Cyngor gyrfaoedd

Gyrfa Cymru yw'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd dwyieithog Cymru gyfan ar gyfer pob oedran, sy'n darparu gwasanaeth statudol ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i unigolion sydd angen cymorth i gynllunio eu dyfodol; p'un a ydynt yn yr ysgol, mewn colegau addysg bellach, dan hyfforddiant, yn ddi-waith neu mewn perygl o golli eu swyddi.

Eu nod hefyd yw gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddarparu ystod o wasanaethau wedi'u targedu, gan gynnal cysylltiadau rhwng cyflogwyr, ysgolion a cholegau i gyfoethogi dealltwriaeth myfyrwyr o fyd gwaith, yn ogystal â darparu ystod o brosiectau strategol megis Porth Sgiliau Unigol ar gyfer oedolion di-waith sydd angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd er mwyn eu helpu i gael cyflogaeth.

Mae gwefan GyrfaCymru.com yn darparu ystod eang o wybodaeth am y farchnad lafur, offer cynllunio a datblygu ar gyfer gyrfaoedd a mynediad i wasanaethau i gefnogi rhaglenni Llywodraeth Cymru fel Twf Swyddi Cymru, Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a'r cynllun ReAct.

Mae gwasanaethau Gyrfa Cymru ar gael wyneb yn wyneb; dros y ffôn; ac ar-lein. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0800 028 4844 neu ewch i'n gwefan www.gyrfacymru.com.

### 3.7 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (ac Addysg Grefyddol ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11)

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (ac Addysg Grefyddol ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11) yn cael ei addysgu mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn unol â'r maes llafur mae Sir Ddinbych wedi cytuno arno ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moesau. Mae'r maes llafur sydd wedi'i gytuno'n cael ei adolygu bob 6 blynedd. Mae copïau ar gael gan yr ysgolion neu gan yr awdurdod lleol. Gall ysgolion gwirfoddol a reolir, ar gais rhieni, ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â dysgeidiaeth ffydd ddynodedig yr ysgol honno.

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac mae'n cael ei addysgu yn unol ag ymddiriedolaeth yr ysgol. Gweithred yr ymddiriedolaeth yw'r ddogfen sy'n nodi gwerthoedd a chredoau sylfaenol yr ysgol. Mae'n rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir hefyd addysgu Crefydd Gwerthoedd a Moeseg gan roi ystyriaeth i'r maes llafur mae Sir Ddinbych wedi cytuno arno ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Nid oes hawl i rieni dynnu eu plant o gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn dal i allu cael eu tynnu o wersi Addysg Grefyddol.

Mae pob disgybl (rhwng 5 a 18 oed) yn addoli ar y cyd yn ddyddiol ym mhob ysgol. Gall rhieni dynnu eu plant o addoli dyddiol ar y cyd. Gall disgyblion y chweched dosbarth eu tynnu eu hunain o addoli dyddiol ar y cyd.

### 3.8 Y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Mae'r Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn gweithredu yn bennaf mewn ysgolion Sir Ddinbych, yn cynnig cefnogaeth gyda'r Saesneg i ddisgyblion lleiafrif ethnig. Mae'r gwasanaeth yn delio gyda dysgwyr unigol yn bennaf h.y. efallai mai dim ond un plentyn sydd yn yr ysgol o'i gymuned iaith neu grŵp treftadaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm o athrawon sy'n gweithio gyda'r plant i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu ar bob lefel mewn Saesneg ac, felly, gael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fel rheol caiff disgyblion eu cyfeirio at y gwasanaeth gan y Penaethiaid.

### 3.9 Ysgolion iach

Mae 'Cynllun Ysgolion Iach Sir Ddinbych' yn gynllun lleol sy'n rhan o 'Rhwydwaith Ysgolion Hyrwyddo Iechyd a Lles Cymru' gan Llywodraeth Cymru. Ysgol sy'n hybu iechyd yw un sy'n hyrwyddo ac yn diogelu iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned drwy gymryd camau cadarnhaol. Byddai hyn yn cynnwys ymgorffori iechyd mewn polisïau, cynllunio a datblygiad staff o ran y cwricwlwm, ethos, yr amgylchedd ffisegol a chysylltiadau

cymunedol. Mae holl ysgolion Sir Ddinbych yn rhan o'r cynllun ac mae rhai wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol.

Mae ysgolion yn gweithio gydag asiantaethau partner fel yr heddlu a nyrsys ysgol a'r NSPCC i ddatblygu camau gweithredu. Er enghraifft, cefnogi iechyd a lles emosiynol, hyrwyddo bwyta'n iach, datblygu amserau egwyl egnïol, cynllun bydis buarth, darparu clybiau ar ôl ysgol megis chwaraeon neu goginio, gwella addysg am alcohol a chyffuriau, addysg rhyw a pherthnasoedd a mwy.

### 3.10 Llywodraethwyr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethol, sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am yr ysgol yn gyffredinol, gydag ystod o gyfrifoldebau penodol, yn cynnwys cyllid yr ysgol a phenodi staff. Mae Cyrff Llywodraethol yn cynnwys pobl leol – rhieni, unigolion a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol, athrawon, staff atodol, y Pennaeth a gall gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, cynrychiolwyr yr eglwys a Disgybl Lywodraethwyr (mewn ysgolion uwchradd yn unig). Bydd nifer aelodau'r corff yn dibynnu ar faint yr ysgol.

Rhaid i bob corff llywodraethol gynnwys rhiant lywodraethwyr sy'n cael eu hethol gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn arferol. Cewch ragor o wybodaeth gan yr ysgol.

## 3.11 Diogelu

Mae'n ddyletswydd ar bob ysgol yn y sir i gadw at weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016, a chwarae rôl bwysig yn adnabod a chyfeirio achosion o gam-drin honedig.

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb bugeiliol tuag at blant a phobl ifanc. Maent yn chwarae rôl bwysig o ran atal camdriniaeth ac esgeulustra drwy greu a chynnal lle diogel i blant a phobl ifanc a'u haddysgu am gadw'n ddiogel rhag niwed, a sut i rannu unrhyw bryderon.

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

Mae gan athrawon a staff cymorth rôl hollbwysig i'w chwarae wrth weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant yng nghyswllt diogelu plant. Mae gan yr holl ysgolion bolisi diogelu ac athro/athrawes ddynodedig ar gyfer diogelu plant i weithredu fel ffynhonnell arbenigedd a chyngor. Mae'r athro dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff gan gynnwys staff newydd a staff dros dro yn gwybod y gweithdrefnau a lle i gael cyngor, ac fe'u hanogir i rannu eu pryderon. Mae gan bob ysgol lywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu plant.

Mae gan yr awdurdod swyddog gyda chyfrifoldeb penodol am ddiogelu sy'n medru rhoi cyngor i ysgolion a chyrff llywodraethol, yn cynnwys cyngor lle gwneir honiadau yn erbyn staff. Mae'r awdurdod hefyd yn sicrhau bod hyfforddiant ac asesiad ar gyfer staff ysgol ac yn cefnogi ysgolion yn eu rôl o ddiogelu plant.

## 3.12 Gwrth-fwlio

Mae pob ysgol yn cadw at egwyddorion allweddol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, canllawiau Llywodraeth Cymru a Sir Ddinbych ac mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau gwrth-fwlio er mwyn delio ag unrhyw achosion a all ddigwydd. Os oes gan rieni unrhyw bryderon am y mater hwn, dylent gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf.

- Mae pob math o fwlio yn annerbyniol, sut bynnag y bydd yn digwydd neu ba bynnag esgus a roddir i'w gyfiawnhau;
- Mae pob plentyn / unigolyn ifanc yn haeddu cael ei addysg heb deimlo cywilydd, gormes na cham-driniaeth. Mae gan bob unigolyn sy'n rhan o ysgol gyfrifoldeb i weithredu er mwyn gofalu am ei gilydd;
- Mae pob ysgol yn cydnabod yr effaith niweidiol ar ddisgyblion a all fod yn dioddef bwlio a byddant yn gweithio i leihau'r risgiau;
- Mae ysgolion yn cydnabod bod rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â bwlio rhywiol, hiliol, homoffobig ac unrhyw fwlio sy'n seiliedig ar wahaniaeth;
- Caiff dioddefwyr bwlio eu trin mewn modd cefnogol a rhaid i ôl-ofal fod ar gael.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob plentyn ac unigolyn ifanc yn ein hysgolion.

## 3.13 Y drefn gwynion cyffredinol

Gellir delio â llawer o faterion yn gyflym ac effeithiol wrth eu trafod yn anffurfiol gyda'r Prifathro neu aelod arall o'r staff yn yr ysgol. Dyma'r cam rhesymol cyntaf, ac oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol, byddai'r Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethol yn disgwyl i'r cam hwn fod wedi ei gwblhau cyn cyflwyno cwyn ffurfiol.

Mae holl ysgolion Sir Ddinbych yn gweithio i Weithdrefn Gwynion sengl. Mae copïau o'r Weithdrefn ar gael gan yr ysgol. Mae'r Gweithdrefnau'n gosod allan ymrwymiad yr ysgol i ddelio â'r materion ac esbonio'r gwahanol gamau sydd yna i ddelio â'r gŵyn.

Yn yr un modd gyda chwynion am weithredoedd yr Awdurdod (neu ddiffyg gweithredu), dylai rhieni sy'n dymuno cwyno drafod y gŵyn yn anffurfiol i ddechrau gyda swyddogion priodol yr Awdurdod Lleol. Fe ddelir â phob cwyn sy'n ymwneud â'r Awdurdod Lleol neu unrhyw un o'i swyddogion yn unol â'r Gweithdrefnau Cwynion Corfforaethol.

## 3.14 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych yn darparu gwybodaeth o ansawdd, sy'n hygyrch ac yn ddiduedd. Rydyn ni hefyd yn cynnig arweiniad ar ystod lawn o wasanaethau gofal plant ac adnoddau yn Sir Ddinbych sy'n cynnwys:

- Gofalwyr plant
- Ysgolion meithrin
- Clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol
- Cylchoedd chwarae
- Grwpiau rhieni a phlant bach
- Clybiau gwyliau a chynlluniau chwarae
- Cymorth gyda chostau gofal plant a thalebau gofal plant
- Sefydlu eich busnes gofal plant eich hun
- Addysg
- Mudiadau a llinellau cymorth i rieni
- Gwasanaethau i blant ag anghenion arbennig

- Pethau i'w gwneud yn ystod gwyliau'r ysgol
- Gweithgareddau hamdden

Nod staff Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych yw rhoi gwasanaeth o ansawdd sy'n amserol, yn rhad ac yn gwbl ddwyieithog drwy gynnig gwasanaeth ymholiadau ffôn peiriant ateb 24 awr, gwasanaeth e-bost a chyrchiad rhyngrwyd ar-lein i wybodaeth.

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am faterion penodol sy'n effeithio ar deuluoedd â phlant rhwng 0 a 20 oed. Ceir manylion cyswllt y gwasanaeth ar dudalen 3.

## 3.15 Cyngor ar Hawliau Lles Cyngor Sir Ddinbych

Oeddech chi'n gwybod bod rhyw £25m y flwyddyn yn mynd heb ei hawlio neu wedi ei danhawlio mewn budd-daliadau a chredyd treth yn Sir Ddinbych?

Cysylltwch â'r Llinell Gyngor ar Hawliau Lles (gweler tudalen 3) os hoffech chi gael gwybodaeth annibynnol, cyngor neu gynrychiolaeth i apelio mewn perthynas â:

- Budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredyd treth;
- Hawliau tai;
- Hawliau cyflogaeth;
- Dyled bersonol;
- Arbed ynni; a
- Chysylltu â'r gwasanaethau cymunedol perthnasol.

## 3.16 Prydau Bwyd Ysgol am Ddim

Mae teuluoedd yn gymwys i dderbyn pryd bwyd ysgol am ddim os yw'r rhiant yn derbyn un o'r canlynol:

Cymorth Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith (Seiliedig ar Incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth (Seiliedig ar Incwm), Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig), Gredyd Treth Plant (HEB gredyd treth gwaith), gydag incwm trethadwy blynyddol o lai na £16,190 (cywir

adeg cyhoeddi'r ddogfen), Cymorth o dan Adran VI o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999, neu Credyd Cynhwysol.

Nid oes modd i blentyn maeth dderbyn cinio ysgol am ddim.

Cysylltwch ag adran Budd-daliadau Sir Ddinbych am wybodaeth bellach (manylion cyswllt ar dudalen 3).

## 3.17 Grant Hanfodion Ysgol (Grant Gwisg Ysgol)

Os yw eich plentyn yn mynd i ddosbarth derbyn, blwyddyn 3 neu flwyddyn 10 ym mis Medi a'ch bod yn derbyn budd-dal cymwys (isod), efallai bod gennych yr hawl i dderbyn grant tuag £125.00 at gost gwisg ysgol. Os yw eich plentyn yn mynd i flwyddyn 7 ym mis Medi a'ch bod yn derbyn budd-dal cymwys, efallai bod gennych yr hawl i dderbyn grant o £200 tuag at gost gwisg ysgol.

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Treth Credyd Plant gydag incwm blynyddol llai na £16,190
- Credyd Pensiwn; Credyd Gwarantedig
- Cymorth o dan Adran VI o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999
- Credyd Cynhwysol a ni ddylai'ch enillion net blynyddol fod dros £7,400

Ni ellir derbyn y grant gwisg ysgol os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith. Cysylltwch ag adran Budd-daliadau Sir Ddinbych am wybodaeth bellach (manylion cyswllt ar dudalen 2).

## 3.18 Dyddiadau tymor

Mae dyddiadau tymor ar gyfer blynyddoedd 2023/24 a 2024/25 ar gael ar wefan Sir Ddinbych. Cysylltwch â'r ysgolion i gael eu manylion unigol ynglŷn â'u dyddiau hyfforddi staff.

### 3.18.1 Dyddiau hyfforddi staff

Mae yna 5 diwrnod hyfforddi statudol ar gyfer hyfforddi staff a bydd yr ysgolion wedi cau i ddisgyblion ar y dyddiau hynny. Cysylltwch ag ysgol eich plentyn i gael manylion y dyddiau hyfforddi gan eu bod yn amrywio rhwng ysgolion unigol.

## 3.19 Gwyliau teuluol yn ystod y tymor

Nifer cyfartalog y dyddiau mewn blwyddyn ysgol ydi 190, felly mae yna oddeutu 175 o ddyddiau bob blwyddyn i drefnu seibiant byr neu wyliau. Does yna ddim hawl awtomatig i dynnu disgyblion o ysgol ar gyfer gwyliau ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i rieni geisio caniatâd gan y Prifathro ymlaen llaw. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r ysgol i gael ffurflen wyliau cyn bwcio gwyliau, gan nad yw caniatâd yn awtomatig. Ystyriwch y wybodaeth a nodir yn 3.2 'Mae pob diwrnod yn yr ysgol yn cyfri'.

## 3.20 Gwybodaeth am gau ysgolion

Cofiwch ymweld â gwefan Sir Ddinbych, am y wybodaeth ddiweddaraf ar ysgolion sydd wedi cau oherwydd amgylchiadau eithriadol.

# 4.0 Polisïau Derbyniadau Ysgol - Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

## 4.1 Ysgol Gatholic Crist y Gair

### 4.1.1 Sut i wneud cais

Rhaid i rieni lenwi Ffurflen Mynegi Dewis yr Awdurdod Lleol neu wneud cais ar-lein trwy'r wefan (www.sirddinbych.gov.uk/derbyniadau). Os ydych yn dymuno i'ch cais gael ei ystyried yn erbyn meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol yna dylech HEFYD lenwi Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd ar gael o'r ysgol.

Gellir cael Ffurflen Wybodaeth Atodol yn uniongyrchol o'r ysgol. Rhaid dychwelyd y Ffurflen Wybodaeth Atodol i'r ysgol. Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais ar ôl y dyddiad ddychwelyd y Ffurflen Wybodaeth Atodol atom cyn gynted a phosibl. Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei ben ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni lenwi Ffurflen Gais Derbyniadau hefyd.

Wedi adolygu gyda'r ALl a'r Esgobaeth mae'r trefniadau derbyniadau ysgolion a osodwyd gan y Corff Llywodraethu wedi gosod ei niferoedd derbyniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol yn dechrau ym Medi 2023 fel a ganlyn:

- Nifer derbyn ar gyfer dosbarth Meithrin yw 60
- Nifer derbyn ar gyfer dosbarth Derbyn yw 60
- Nifer derbyn ar gyfer Blwyddyn 7 yw 100 (ynghyd â'r holl grwpiau blwyddyn eraill uchod).

Nid yw plant gyda lle meithrin â'r hawl yn awtomatig i le Derbyn; mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais perthnasol o fewn yr amserlen y nodir yn y polisi hwn. Mae gan ddisgyblion wedi'u derbyn i'r cyfnod cynradd yr hawl i drosglwyddo i'r cyfnod uwchradd ar ddiwedd Blwyddyn 6.

Y nifer derbyn ar gyfer Blwyddyn 7 fydd nifer y lleoedd sydd ar gael ar ôl ystyried yr holl ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 6. Er enghraifft, os yw'r 60 o blant ym Mlwyddyn 6 yn dewis aros yn yr ysgol ar gyfer Blwyddyn 7 yna nifer y llefydd ar gael byddai 40.

Pe bai nifer y ceisiadau yn rhagori ar y nifer derbyn byddai Llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau ar gyfer y cyfnod cynradd ac uwchradd yn unol â'r meini prawf isod, yn ddibynnol bod y ceisiadau yn cael eu derbyn cyn y gwneir cynigion am lefydd.

### 4.1.2 Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer llefydd cynradd

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, ond nad ydynt bellach am eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu wedi dod yn ddarostyngedig i orchymyn gwarcheidwaeth arbennig neu breswylfa.
2. Plant Catholig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn.
3. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholig y mae eu cyfeiriad cartref o fewn ffiniau'r plwyf a enwir ar gyfer yr ysgol; y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych a Rhuthun, Abergele a Towyn.
4. Plant Catholig eraill.
5. Plant, wedi'u bedyddio neu sy'n aelodau ymroddedig o Eglwysi Cristnogol eraill. (Angen tystiolaeth o Fedyddiad fel Tystysgrif Bedyddio neu gadarnhad ysgrifenedig bod yr ymgeisydd yn aelod o'r gymuned Ffydd gan Weinidog Crefyddol priodol.)
6. Plant o draddodiadau ffydd eraill y mae eu rhieni'n mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwys Gatholig. Byddai Arweinydd Ffydd briodol angen cadarnhau yn ysgrifenedig bod yr ymgeisydd yn aelod o'u grŵp ffydd.
7. Plant eraill y mae eu rhieni'n mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwys Gatholig.

### 4.1.3 Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer llefydd uwchradd

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, ond nad ydynt bellach am eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu wedi dod yn ddarostyngedig i orchymyn gwarcheidwaeth arbennig neu breswylfa.

2. Plant Catholig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn.
3. Plant wedi'u bedyddio’n Gatholig y mae eu cyfeiriad cartref o fewn ffiniau’r plwyf a enwir ar gyfer yr ysgol; y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych a Rhuthun, Abergele a Towyn.
4. Ar gyfer plant Catholig blwyddyn 7 sy'n byw yn yr ardaloedd diffiniedig ysgol gynradd o Ysgol Sant Joseff ym Mae Colwyn, Ysgol Blessed William Davies, Llandudno ac Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor.
5. Plant Catholig eraill.
6. Plant, wedi'u bedyddio neu sy'n aelodau ymroddedig o Eglwysi Cristnogol eraill. (Angen tystiolaeth o Fedyddiad fel Tystysgrif Bedyddio neu gadarnhad ysgrifenedig bod yr ymgeisydd yn aelod o'r gymuned Ffydd gan Weinidog Crefyddol priodol.)
7. Plant o draddodiadau ffydd eraill y mae eu rhieni’n mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwys Gatholig. Byddai Arweinydd Ffydd briodol angen cadarnhau yn ysgrifenedig bod yr ymgeisydd yn aelod o’u grŵp ffydd.
8. Plant eraill y mae eu rhieni’n mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwys Gatholig.

Ym mhob categori bydd y Llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i’r plant hynny gyda brawd neu chwaer yn mynychu’r ysgol ar amser y derbyn ac yna i blant yn byw agosaf i’r ysgol yn ôl y pellter byrraf.

Bydd y pellter yn cael ei fesur gyda'r daith gerdded fyrraf rhwng cyfeiriad cartref parhaol y plentyn a phrif fynedfa'r ysgol gan ddefnyddio system mesur gyfrifiadurol yr awdurdod lleol.

Bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol yn cael ei henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei dderbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio.

Os ydych yn ansicr eich bod yn cyflawni'r meini prawf derbyn neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Phennaeth yr ysgol.

### 4.1.4 Ceisiadau Hwyr

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu hystyried ar yr un pryd ac ar ôl y dyddiad cau perthnasol. Bydd ceisiadau yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hynny yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr a ddim yn cael eu hystyried tan ar ôl i'r prif ddyraniad o lefydd gael ei wneud. Os bydd rheswm da yn cael ei roi ar gyfer cyflwyno cais yn hwyr e.e. pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl ers tipyn o amser, neu deulu newydd symud i'r ardal, neu'n dychwelyd o dramor, ar yr amod bod ceisiadau'n cyrraedd cyn y caiff cynnig am le ei wneud yna bydd y cais yn cael ei dderbyn. Byddwch yn ymwybodol fod angen tystiolaeth o bosib i gefnogi'r wybodaeth hon. Mae Plant Sy'n Derbyn Gofal a phlant gyda datganiadau o AAA sy'n enwi ysgol benodol yn gorfod cael eu derbyn waeth pryd y derbyniwyd y cais.

### 4.1.5 Diffiniad o Rieni

Mae 'rhieni' yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n cael Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn. Mewn achos o anghydfod rhwng rhieni, pan fo mwy nag un rhiant â chyfrifoldeb rhiant a'u bod yn anghytuno ar wneud cais i ysgol benodol, cynigir lle dros dro mewn ysgol nes bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys gan y ddau riant fel mater personol.

### 4.1.6 Diffiniad o Blentyn sy'n Derbyn Gofal

Mae Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn cael ei roi o dan adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989. Mae Plentyn sydd wedi Derbyn Gofal yn y gorffennol yn un sydd wedi symud ar unwaith o'r statws hynny ac wedi bod yn destun mabwysiadu, gorchymyn trefniadau plant neu orchymyn gwarchodaeth arbennig.

### 4.1.7 Plant Catholig

I blentyn cael ei ystyried fel Catholig rhaid cael tystiolaeth o Fedydd Catholig neu wedi

cael ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig. Bydd tystysgrif bedydd neu lythyr gan eu hoffeiriad yn cadarnhau eu bedydd neu dderbyniad yn ddigon. Dylid bedyddio cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais. Mae Catholig yn golygu aelod o'r eglwys mewn cymundeb ag Esgobaeth Rhufain. Mae hyn yn cynnwys yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol.

I'r rheiny sy'n cael trafferth cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedyddio am unrhyw reswm dilys, mae posib iddynt i gael eu hystyried fel pobl Gatholig wedi'u bedyddio ond dim ond ar ôl cael eu cyfeirio at offeiriad y plwyf ar ôl ymgynghori gyda'r Ficer Esgobol, y bydd yn penderfynu ar sut y bydd y cwestiwn o fedyddio yn cael ei ddatrys a sut y gellir cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.

Mae Ffiniau plwyf yn cael eu dangos ar fap, sydd ar gael i'w archwilio yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

## 4.1.8 Cyfeiriad Cartref

Cyfeiriad Cartref sy'n cael ei ystyried fel y cyfeiriad lle bydd y plentyn fel arfer yn byw. Pan fydd gofal wedi'i rannu a bod y plentyn yn symud rhwng dau gyfeiriad gwahanol, y cartref sy'n derbyn y budd-dal plant fydd y cyfeiriad fel arfer a ddefnyddir ond mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth eraill fel bo'r angen ar gyfer yr amgylchiadau unigol. Ni ddylai ymgeiswyr nodi cyfeiriad y gwarchodwr plant neu berthynas arall. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

1. llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau bod cyfnewid Contractau wedi digwydd ar adeg prynu eiddo; neu
2. gopi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
3. yn achos personél Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad postio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu GCHQ.

### 4.1.9 Diffiniad o Frawd neu Chwaer

Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y cylch mynediad arferol, brawd neu chwaer berthnasol yw plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn a fabwysiadwyd yn byw yn yr un uned deuluol a'r un cartref teuluol, gyda'r un cyfeiriad, sy'n mynychu'r ysgol a ddewiswyd mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf, neu mewn achos o frodyr neu chwiorydd ym Mlwyddyn 6 lle mae cais Uwchradd wedi cael eu cyflwyno am ysgol arall. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol a ddewiswyd mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd waeth beth fo'u man preswylio. Ni fydd plant sy'n byw yn yr un cartref fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### 4.1.10 Plant o enedigaeth luosog

Lle mae teulu o efeilliaid neu dripledi yn gwneud cais am le ac os yw un brawd neu chwaer wedi cael cynnig y lle olaf, mae'r rheol 'disgybl a eithrir' yn weithredol ac mae'r efail arall / tripledi eraill yn cael cynnig lle.

### 4.1.11 Rhestr aros

Mae ymgeiswyr sy'n cael eu gwrthod am le yn ystod neu du allan i'r cylch derbyn arferol yn cael eu rhoi ar y rhestr aros tan 30 Medi o'r flwyddyn academaidd bresennol. Os bydd llefydd yn dod ar gael tra ar y rhestr bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu a bydd y plentyn mwyaf cymwys yn cael cynnig lle. Dim ond ffactorau yn berthnasol i feini prawf gordanysgrifio y bydd yn cael eu defnyddio wrth wneud cynigion, er enghraifft, ni fydd hyd yr amser y mae'r plentyn wedi bod ar y rhestr yn cael ei ystyried. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus sy'n gwneud cais am le ysgol ar ôl i'r flwyddyn ysgol ddechrau yn cael eu rhoi ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor ysgol berthnasol. Mae ymgeiswyr sy'n dymuno ymestyn ar yr amser y mae eu plentyn yn aros ar y rhestr yn gallu gwneud hynny am un tymor ysgol arall. Ni fydd disgwyl i ymgeiswyr i gwblhau ffurflenni derbyn pellach, er rhaid iddynt gysylltu â'r Pennaeth a sicrhau fod y wybodaeth sydd gan

yr ysgol yn gywir.

### 4.1.12 Ceisiadau 'Yn ystod y Flwyddyn'

Disgwylir i rieni yn dymuno gwneud cais am le ysgol ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddechrau lenwi ffurflen gais trosglwyddo ysgol. Mae ar gael ar-lein trwy wefan Cyngor Sir Ddinbych, ac mae copïau caled ar gael ar gais. Bydd penderfyniadau yn seiliedig ar lefydd ar gael yn unol â'r niferoedd derbyn a gyhoeddwyd ac, os nad oes digon o lefydd ar gael ar gyfer nifer yr ymgeiswyr bydd yr ymgeiswyr mwyaf cymwys yn cael cynnig llefydd yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio. Bydd ymgeiswyr yn derbyn hysbysiad o benderfyniad y Llywodraethwr o fewn 15 diwrnod ysgol (neu 28 diwrnod calendr, p'un bynnag sydd gynharaf) o dderbyn y cais, ac o'u hawl i apelio os yn berthnasol.

### 4.1.13 Tynnu cynnig yn ôl

Mae Llywodraethwyr yn cadw'r hawl i dynnu cynnig am le ysgol yn ôl pan fydd tystiolaeth ffug wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r cais ac wrth gynnig lle i blentyn a bod cam wedi'i wneud wrth wrthod lle ysgol i blentyn arall. Rhaid i rieni gyflwyno cais o'r newydd i ysgol os y bydd eu cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

### 4.1.14 Addysg Meithrin

Nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio os ydynt yn aflwyddiannus wrth gael lle.

### 4.1.15 Hawl i Apelio

Os na fydd y Llywodraethwyr yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Llywodraethwyr i beidio â derbyn plentyn wneud apêl. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Yna, bydd y Panel Apeliadau yn cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni sydd wedi cael gwrthod lle yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn rhwymol ar gyfer pawb dan sylw.

Bydd rhieni sy'n aflwyddiannus mewn sicrhau lle ysgol yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig o benderfyniad y Corff Llywodraethu, yn cael eu cynghori o'u hawl i apelio a sut i ganlyn yr apêl. Serch hynny dydi'r hawl i apelio ddim yn ymestyn i ddarpariaeth Meithrinfa.

### 4.1.16 Penodi aelodau'r panel

Bydd y panel apêl annibynnol yn arwain y gwrandawiad yn unol â Chod Apelio Derbyniadau Ysgol 2013. Unwaith y bydd yr apêl neu apeliadau wedi derbyn sylw, bydd y penderfyniad a gyflwynir yn gyfrwymol ar y Corff Llywodraethu a'r rhiant.

### 4.1.17 Amserlen Trefniadau Derbyn: Amserlen Trefniadau Derbyniadau

- Meithrin – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/02/2025. Bydd y canlyniadau ar gael ar 06/05/2025.
- Derbyn – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/02/2025. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2025.
- Iau – mae ceisiadau ar gael o 23/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 18/11/2024. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2025.
- Uwchradd – mae ceisiadau ar gael o 02/09/2024, a rhaid eu cyflwyno erbyn 04/11/2024. Bydd y canlyniadau ar gael ar 03/03/2025.

## 4.2 Ysgol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant

### 4.2.1 Sut i wneud cais

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn derbyn disgyblion rhwng 4 ac 11 oed (a 3 a 4 oed yn y Dosbarth Meithrin os oes un).

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru, Corff Llywodraethu yr Ysgol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Gellir cael ffurflenni derbyn o'r Ysgol. Caiff amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol (ALl) ei dilyn ar gyfer dosbarthu a dychwelyd y ffurflenni hyn a'r cyfnod ystyried.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed, h.y. gall unrhyw blentyn sy'n cyrraedd pedair oed erbyn 31 Awst gael eu derbyn ym mis Medi. Gall rhiant ohirio derbyn ei blentyn tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol. Nifer Derbyn disgyblion ar gyfer yr ysgol yw 8.

### 4.2.2 Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgol

- Meithrin – mae ceisiadau ar gael o 25/09/2023, a rhaid eu cyflwyno erbyn 16/02/2023. Bydd y canlyniadau ar gael ar 07/05/2023
- Derbyn – mae ceisiadau ar gael o 25/09/2023, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/11/2023. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2024.
- Iau – mae ceisiadau ar gael o 25/09/2023, a rhaid eu cyflwyno erbyn 17/11/2023. Bydd y canlyniadau ar gael ar 16/04/2024.
- Uwchradd – mae ceisiadau ar gael o 04/09/2023, a rhaid eu cyflwyno erbyn 06/11/2023. Bydd y canlyniadau ar gael ar 01/03/2024.3

### 4.2.3 Derbyn i'r Ysgol Gynradd

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer derbyn. Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol yn cael ei gymhwyso yn y drefn a nodir isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Nodwch, bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol yn cael ei henwi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael ei dderbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio.

### 4.2.4 Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael

a) Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol sydd yn aelodau bedydd o'r Eglwys yng Nghymru. Tystiolaeth dderbyniol o fedydd yw tystysgrif bedydd wedi'i llofnodi gan glerigwr ar ran y lle y bedyddiwyd y plentyn.

b) Plant eraill sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

c) Disgyblion y mae eu cyfeiriad cartref o fewn ffiniau eglwysig plwyf y Drindod Sanctaidd yn Nhrefnant (gan roi blaenoriaeth uwch i ddisgyblion sydd hefyd yn bodloni maen prawf d) isod) (mae map yn dangos ffiniau eglwysig plwyf y Drindod Sanctaidd yn Nhrefnant ar gael yn yr ysgol)

d) Disgyblion sydd â brawd neu chwaer a fydd yn parhau i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf, h.y. sydd ddim ym Mlwyddyn 6. Diffiniad o frawd neu chwaer yw brawd/chwaer Iawn, hanner brawd/chwaer neu lys frawd/chwaer, neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu/plentyn maeth sy'n byw yn yr un uned deuluol.

e) Disgyblion y mae eu rhiant/rhieni (gweler y diffiniad isod) yn mynychu'r Drindod Sanctaidd yn Nhrefnant yn rheolaidd, neu un o'r eglwysi yn ei grŵp, sef Corpus Christi, Tremeirchion, All Saints, Sinan neu Eglwys y Santes Fair, Cefn Meiriadog.

f) Disgyblion y mae eu rhiant/rhieni (gweler y diffiniad isod) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall yn rheolaidd a dyma'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd agosaf atynt.

g) Disgyblion y mae eu rhiant/rhieni (gweler y diffiniad isod) yn aelod gweithredol o enwad Cristnogol arall a dyma'r Ysgol Eglwys agosaf atynt.

h) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn aelod gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd a dyma'r Ysgol Eglwys agosaf atynt.

i) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn aelodau gweithredol o ffydd arall ac sydd hefyd yn mynegi dymuniad i gael addysg Ysgol Eglwys.

j) Plant y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru.

Ar gyfer meini prawf e-h, bydd y Llywodraethwyr yn gofyn am wybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau ac yn gofyn am gael cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad neu'r gweinidog lleol ar ffurflen atodol sydd i'w gweld ynghlwm wrth y polisi hwn.

### 4.2.5 Y penderfyniad olaf

O fewn pob categori, rhoddir blaenoriaeth uwch i’r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellteroedd eu cyfrifo gan ddefnyddio System Mapio Daearyddol yr Awdurdod Lleol sy'n mesur y pellter yn gywir o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol. Caiff hyn ei fesur o ddrws ffrynt y cartref i ddrws prif fynedfa'r ysgol. Os bydd y pellteroedd yn gyfartal, fel y cyfrifir gan system GIS, er enghraifft fflat mewn bloc o anheddau gyda'r un drws ffrynt, gwahaniaethir pellter yn ôl lefel y llawr.

Bydd rhieni yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r holl geisiadau derbyn.

### 4.2.6 Ceisiadau Hwyr

Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr, yn y cylch derbyn arferol, mewn achosion lle caiff rheswm dichonadwy ei roi. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl ers tipyn o amser, neu deulu newydd symud i'r ardal, neu'n dychwelyd o dramor, ar yr amod bod ceisiadau’n cyrraedd cyn y caiff cynnig am le ei wneud.

Bydd pob cais hwyr arall ar gyfer y cylch derbyn arferol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl dyrannu lleoedd i'r rhai a gafwyd mewn pryd.

### 4.2.7 Rhestr aros

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal mewn achos o ordanysgrifio i ysgol. Yn dilyn y gwaith o ddyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi ar gyfer y flwyddyn ysgol y byddant wedi gwneud cais amdani. Os bydd lleoedd ychwanegol yn dod ar gael tra bo'r rhestr aros yn weithredol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod.

### 4.2.8 Apeliadau derbyn

Os na fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae oherwydd bod y nifer derbyn wedi'i gyrraedd a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg y grŵp blwyddyn. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn wneud apêl. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr a fydd yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a elwir ynghyd gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyniadau Ysgol. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle iddynt yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn rhwymol ar gyfer pawb dan sylw.

### 4.2.9 Dyrannu Lleoedd Dosbarth Meithrin

Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu digon o leoedd mewn dosbarthiadau meithrin yn eu hardal. Caiff disgyblion eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair oed – h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed erbyn 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 os nad ydynt yn llwyddo i gael lle. Nid yw cael eu derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu eu bod yn cael eu derbyn i'r ysgol. Os oes gan blentyn le yn ein Dosbarth Meithrin, rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol ar gyfer cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn o fewn amserlen ragnodedig y cylch derbyniadau blynyddol.

Bydd addysg feithrin yn cael ei darparu yn y prynhawn ar sail 5 sesiwn 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn.

Mewn achos o ordanysgrifio, bydd ceisiadau am leoedd meithrin yn cael eu trin gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio.

### 4.2.10 Diffiniad o Rieni

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n cael Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

### 4.2.11 Cyfrifoldeb Rhiant

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod â'r fam pan gafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad / gwahanu / ail briodas hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddynt
- Mae gan dadau dibriod gyfrifoldeb rhiant lle bo'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma newid i'r Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant trwy orchymyn preswylio, penodi fel gwarcheidwad; enwi mewn gorchymyn amddiffyn brys (yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu berson ifanc); neu drwy fabwysiadu.

Mewn achos o anghydfod rhwng rhieni, lle mae mwy nag un rhiant â chyfrifoldeb rhiant a'u bod yn anghytuno ynglŷn â gwneud cais i ysgol benodol, cynigir lle dros dro mewn ysgol nes bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys gan y ddau riant fel mater personol.

### 4.2.12 Diffiniad o Frawd neu Chwaer

Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y cylch mynediad arferol, brawd neu chwaer berthnasol yw plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn a fabwysiadwyd yn byw yn yr un uned deuluol a'r un cartref teuluol, gyda'r un cyfeiriad, sy'n mynychu'r ysgol a ddewiswyd mewn unrhyw grŵp

blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol a ddewiswyd mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd waeth beth fo'u man preswylio.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un cartref fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### 4.2.13 'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'

Y Cyfeiriad Cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth yn ymwneud â lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth o'r cyfeiriad cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd rhanedig) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid darparu prawf o'r Cyfeiriad Cartref i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a bennir gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

i) llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau bod cyfnewid Contractau wedi digwydd ar adeg prynu eiddo; neu

ii) gopi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu

iii) yn achos personél Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad postio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu GCHQ.

### 4.2.14 Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog

Pan fydd y Corff Llywodraethu yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, bydd y teulu yn cael cynnig y lle ac fe allant benderfynu (a) os byddant yn ei dderbyn ar gyfer un brawd neu chwaer, neu (b) eu bod yn gwrthod y lle a'i fod yn cael ei gynnig i'r unigolyn nesaf yn y dyraniad ar ôl yr efeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Nodwch na fyddai'r brawd/brodyr neu'r chwaer/chwiorydd mewn genedigaeth luosog yn cael blaenoriaeth derbyn, a byddant ond yn cael eu hystyried fel cyswllt

brawd/chwaer unwaith y byddai’r teulu wedi derbyn y lle(oedd) a gynigir ar gyfer un o'r efeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog.

### 4.2.15 Sut y profir ymlyniad crefyddol

Mewn perthynas ag “yn mynychu / yn aelodau gweithredol” o feini prawf gordanysgrifio.

Os ydych chi’n gwneud cais o dan y meini prawf e-h uchod, gallwch gael gafael ar Ffurflen Wybodaeth Atodol yn uniongyrchol gan yr ysgol. Rhaid dychwelyd y Ffurflen Wybodaeth Atodol i’r ysgol erbyn 19/11/2023. Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei phen ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni hefyd lenwi Ffurflen Gais Gyffredin.

Caiff Aelod ei ddiffinio fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

### 4.2.16 Adolygiad

Yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd neu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn weithredol gyda Chod Derbyniadau Ysgol cyfredol Llywodraeth Cymru a chod apeliadau derbyn Ysgol Llywodraeth Cymru.

## 4.3 Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Ffraid (Uwchradd)

*Ysgol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf

Nod Ysgol y Santes Ffraid (yr Ysgol) yw darparu addysg ar gyfer plant Catholig a phlant eraill. Pryd bynnag y ceir mwy o geisiadau nag sydd o lefydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr Catholig yn unol â’r meini prawf a restrir isod.

1. Bydd y cyfrifoldeb am benderfynu’r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion yn nwylo Llywodraethwyr yr Ysgol a’u bwriad fydd derbyn disgyblion sydd eisoes wedi'u cofrestru yn yr Ysgol ac yn ychwanegol derbyn bechgyn neu ferched i

Flwyddyn 7 yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym Medi 2022 yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed, hyd at y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd o 57.

2. Bydd bechgyn neu ferched yn cael eu derbyn i’r Chweched Dosbarth, yn ôl eu Llwybr Dysgu, ac yn ôl y cwricwlwm sy’n cael ei gynnig, yn unol â pholisi Consortiwm Dyffryn Clwyd.

3. Pan fo mwy o geisiadau na chyfanswm y llefydd sydd ar gael ar gyfer blynyddoedd 7-11, cynigir lleoedd yn y drefn blaenoriaeth ganlynol;

   a) Plant sy'n Derbyn Gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) a Phlant a arferai Dderbyn Gofal;
   b) Plant sydd wedi cyflawni'r hyn sy'n cyfateb i lefel 4 (y cyfartaledd cenedlaethol disgwyliedig) yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn yr Arholiad Mynediad y Llywodraethwyr yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

      1. Plant gyda brawd neu chwaer (brodyr a chwiorydd llawn, hanner brodyr a chwiorydd, llysfrodyr a chwiorydd, brodyr a chwiorydd wedi eu mabwysiadu a brodyr a chwiorydd maeth) yn yr ysgol, sy'n byw yn yr un cyfeiriad; disgyblion o deuluoedd aml-enedigaeth pe digwydd mai un yn unig un sydd ar y rhestr pasio.

      2. Catholigion Bedyddiedig (gweler paragraff 4 isod);

      3. Plant o Enwadau eraill y cefnogir eu cais gan Weinidog yr Efengyl (gweler paragraff 4 isod);

      4. Mae plant heb unrhyw enwad crefyddol, y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg Gatholig.

c) Plant na chyrhaeddodd y lefel ofynnol yn Arholiad Mynediad y Llywodraethwyr yn nhrefn blaenoriaeth fel y mae wedi ei restru ym mharagraff 3b.

4. Bydd angen i ymgeiswyr sydd yn Gatholigion mewn Gair a Gweithred sydd yn dymuno hawlio blaenoriaeth ddarparu enw offeiriad y gellir cyfeirio ato a bydd angen cynhyrchu copi o'r Dystysgrif Bedydd. Bydd angen i Weinidog yr Efengyl fynegi ei fod yn cefnogi cais plentyn o enwad arall drwy lofnodi'r rhan berthnasol o'r ffurflen gais.

5. Torri Dadl – os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, dyrennir llefydd i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir pellter ar hyd y llwybr gyrru byrraf, gan wirio gyda Google Maps.

6. Cedwir rhestr aros tan 30 Medi 2022. Yn dilyn y Cylch Derbyn Blynyddol, bydd enwau ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu rhoi ar y rhestr aros. Os daw llefydd yn rhydd tra bo'r rhestr aros yn weithredol byddant yn cael eu dyrannu i blant sydd ar y rhestr aros, ar sail y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, ac nid ar sail y dyddiad y gwnaed y cais.

7. Dim ond os bydd llefydd ar gael y bydd disgyblion yn cael eu derbyn i flynyddoedd eraill, ac os bydd mwy o geisiadau nag sydd o lefydd ar gael, bydd y llefydd yn cael eu cynnig yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a nodir ym mharagraff 3b(1)-(4). Rhaid i rieni sy'n dymuno cael plant wedi eu derbyn i'r Ysgol yng nghanol tymor ac ar unrhyw adeg arall wneud cais a chaiff y cais ei drin yng nghyd-destun Polisi Derbyn yr Ysgol. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau ganol tymor gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Derbyniadau.

8. Yr un yw amserlen y broses dderbyn â'r hyn a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, a hysbysir rhieni/gwarcheidwaid o benderfyniadau derbyn drwy'r post erbyn y dyddiadau cyffredin y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Sir Ddinbych.

9. Mae gan rieni disgyblion o oedran statudol hawl i apelio i banel annibynnol yn erbyn gwrthod rhoi lle mewn ysgol.

## 4.3.1 Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Ffraid (Cynradd)

1. Bydd y cyfrifoldeb am benderfynu'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion yn nwylo Llywodraethwyr yr Ysgol a'u bwriad fydd derbyn disgyblion sydd eisoes wedi'u cofrestru yn yr Ysgol ac yn ychwanegol derbyn bechgyn neu ferched i Flwyddyn 7 yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2024 yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed, hyd y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd, sef 56.

2. Derbynnir bechgyn neu ferched i'r Chweched Dosbarth, yn ôl eu Llwybr Dysgu, ac yn ôl y cwricwlwm a gynigir, yn unol â pholisi Consortiwm Dyffryn Clwyd.

3. Pan dderbynnir mwy o geisiadau na chyfanswm y lleoedd sydd ar gael ar gyfer Blynyddoedd 7 - 11, cynigir lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol;

   a) Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant a arferai dderbyn gofal;
   b) Plant ag anghenion cymdeithasol neu feddygol eithriadol (gweler paragraff 4 isod);
   c) Plant gyda brawd neu chwaer (brodyr a chwiorydd llawn, hanner brodyr a chwiorydd, llysfrodyr a chwiorydd, brodyr a chwiorydd wedi eu mabwysiadu a brodyr a chwiorydd maeth) mewn addysg statudol (Adran Cynradd neu Uwchradd) neu sydd yn y Chweched Dosbarth yn yr ysgol ym mis Medi 2024, sy'n byw yn yr un cyfeiriad;

d) Catholigion wedi'u Bedyddio (gweler paragraff 5 isod);
e) Plant o enwadau eraill, y cefnogir eu cais gan Weinidog yr Efengyl (gweler paragraff 5 isod);
f) Mae plant heb unrhyw enwad crefyddol, y mae eu rhieni/gofalwyr yn dymuno iddynt gael addysg Gatholig.

4. Gall y Llywodraethwyr roi mwy o flaenoriaeth i gais os darperir tystiolaeth pan wneir y cais fod y plentyn ag anghenion cymdeithasol neu feddygol eithriadol a bod adroddiad (y mae'r ymgeisydd wedi'i gael) gan Feddyg, Gweithiwr Cymdeithasol, yr Awdurdod Lleol neu asiantaeth berthnasol arall yn cadarnhau hynny. Rhaid i'r adroddiad roi cyfiawnhad pendant o'r rhesymau iechyd neu amgylchiadau cymdeithasol y plentyn (ac nid y rhiant/gofalwr) sy'n golygu y byddai'n well i'r plentyn fynychu'r Ysgol hon yn hytrach nag unrhyw un arall. Trafodir y wybodaeth â'r bobl berthnasol yn yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu, yn ogystal â'r swyddog priodol yn yr Awdurdod Lleol os oes angen, a rhoddir ystyriaeth i'r holl ffeithiau cyn dyrannu lleoedd. Nid yw'r ffaith y gallai plentyn, gan gynnwys un â diagnosis o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, elwa'n fwy ar fynychu ysgol fach yn rheswm digonol yn y categori hwn fel arfer.
5. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n Gatholigion mewn gair a gweithred sy'n dymuno hawlio blaenoriaeth ddarparu enw offeiriad y gellir cyfeirio ato a darparu copi o'r Dystysgrif Bedyddio**.** Bydd angen i Weinidog yr Efengyl fynegi cefnogaeth i gais plentyn o enwad arall drwy lofnodi'r rhan berthnasol o'r ffurflen gais.

6. Torri dadl – os bydd cyfanswm y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, dyrennir lleoedd i'r rhai hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir pellter ar hyd y llwybr gyrru byrraf, gan wirio gyda *Google Maps*.

7. Yr un yw amserlen y broses dderbyn â'r hyn a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, a hysbysir rhieni/gwarcheidwaid o benderfyniadau derbyn drwy'r post erbyn y dyddiadau cyffredin y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Sir Ddinbych.

8. Ceisiadau hwyr – rhoddir ystyriaeth i geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau sydd wedi'i gyhoeddi gan Gyngor Sir Ddinbych mewn achosion lle rhoddir rheswm da. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau arbennig fel rhiant/gofalwr sengl sydd wedi bod yn sâl am beth amser, neu deulu sydd newydd symud i'r ardal neu ddychwelyd o dramor, cyn belled ag y derbynnir ceisiadau cyn y cynigir lleoedd.

9. Cedwir rhestr aros tan 30 Medi 2024. Wedi'r Cylch Derbyniadau Blynyddol, rhoddir enwau'r ymgeiswyr aflwyddiannus ar y rhestr aros. Os daw llefydd yn rhydd tra bo'r rhestr aros yn weithredol byddant yn cael eu dyrannu i blant sydd ar y rhestr aros, ar sail y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, ac nid ar sail y dyddiad y gwnaed y cais.

10. Ni dderbynnir disgyblion i flynyddoedd eraill ond os oes lle ar gael, ac os yw cyfanswm y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynigir y lleoedd yn unol â'r meini prawf a nodir ym mharagraff 3. Mae'n rhaid i rieni/gofalwyr sy'n dymuno i'w plant gael eu derbyn i'r Ysgol yn ystod y tymor ac ar unrhyw adeg arall gyflwyno cais yr ymdrinnir ag ef yng nghyd-destun Polisi Derbyniadau'r Ysgol, a bydd yn ofynnol i rieni/gofalwyr disgyblion mewn ysgol y wladwriaeth yn Sir Ddinbych lenwi ffurflen gais Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer trosglwyddo o un ysgol i'r llall. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau ganol tymor gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Derbyniadau.

11. Mae gan rieni disgyblion o oedran statudol hawl i apelio i banel annibynnol yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi lle yn yr Ysgol.

# 5.0 Gwybodaeth Ysgolion Sir Ddinbych

## 5.1 Ysgolion Cynradd

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Betws Gwerfil Goch (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Bro Elwern) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Betws Gwerfil Goch, Betws Gwerfil Goch, Corwen, LL21 9PY | Pennaeth: Catrin Phillips<br>Ffôn: 01490 460315<br>E-bost: betws.gg@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 41 | 5 |
| Bodelwyddan | Cynradd Cymunedol | Ysgol y Faenol, Johns Drive, Bodelwyddan, LL18 5TG | Pennaeth: Rhian Jones<br>Ffôn: 01745 583370<br>E-bost: ysgol.yfaenol@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 125 | 17 |
| Bodfari | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bodfari, Bodfari, Dinbych, | Pennaeth: Amy Threlfall<br>Ffôn: 01745 710329 | 5 | 4 ~ 11 | 65 | 9 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | LL16 4DA | E-bost: ysgol.bodfari@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Carrog (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Caer Drewyn) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Carrog, Carrog, Corwen, LL21 9AW | Pennaeth: Jayne Davies<br>Ffôn: 01490 430262<br>E-bost carrog@sirddinbych.gov.uk | 4 | 4 ~ 11 | 65 | 9 |
| Cefn Meiriadog | Cynradd Cymunedol | Ysgol Cefn Meiriadog, Groesffordd Marli, Cefn Meiriadog, LL22 9DS | Pennaeth: Laura Martin<br>Ffôn: 01745 582224<br>E-bost: cefn.meiriadog@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 67 | 9 |
| Clocaenog | Cynradd Cymunedol | Ysgol Carreg Emlyn, Clocaenog, LL15 2AY | Pennaeth: Rhian Thomas<br>Ffôn: 01824 750636<br>E-bost ysgol.carreg.emlyn@ddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 101 | 14 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corwen (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Carrog) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Caer Drewyn, Clawdd Poncen, Corwen, LL21 9RT | Pennaeth: Jayne Davies<br>Ffôn: 01490 412418<br>E-bost: caer.drewyn@sirddinbych.gov.uk | 4 | 4 ~ 11 | 117 | 16 |
| Cynwyd | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bro Dyfrdwy, Cynwyd, Corwen, LL21 0LG | Pennaeth: Bethan Fell<br>Ffôn: 01490 412500<br>E-bost: ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 105 | 15 |
| Dinbych | Gwirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Santes Ffraid, Plas yn Green, Dinbych, LL16 4BH | Pennaeth: Leah Crimes<br>Ffôn: 01745 815228<br>E-bost: stbrigidsprimary@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 121 | 17 |
| Dinbych | Cynradd Cymunedol | Ysgol y Parc (babanod), | Pennaeth: Liz Croft<br>Ffôn: 01745 812989 | 5 | 4 ~ 7 | 146 | 48 |

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd Rhuthun, Dinbych, LL16 3ER | E-bost: ysgol.yparc@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Dinbych | Cynradd Cymunedol | Ysgol Frongoch (Iau), Ffordd y Rhyl, Dinbych, LL16 3DP | Pennaeth: Dylan Thomas<br>Ffôn: 01745 812410<br>E-bost: frongoch@sirddinbych.gov.uk | 5 | 7 ~ 11 | 223 | 55 |
| Dinbych | Cynradd Cymunedol | Ysgol Pendref Ffordd, Gwaenynog, Dinbych, LL16 3RU | Pennaeth: Nicola Griffiths<br>Ffôn: 01745 812660<br>E-bost: pendref@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 180 | 28 |
| Dinbych | Cynradd Cymunedol | Ysgol Twm o'r Nant Ffordd y Rhyl Dinbych LL16 3DP | Pennaeth: Dafydd Davies<br>Ffôn: 01745 812261<br>E-bost: twm.nant@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 286 | 40 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| **Lleoliad** | **Statws** | **Ysgolion cynradd** | **Manylion cyswllt** | **Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20)** | **Ystod oedran** | **Capasiti'r Ysgol** | **Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyserth | Cynradd Cymunedol | Ysgol Hiraddug, Thomas Avenue, Dyserth, LL18 6AN | Pennaeth: Tristan Hughes<br>Ffôn: 01745 570467<br>E-bost:<br>ysgol.hiraddug@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 210 | 30 |
| Gellifor (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Bryn Clwyd) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Gellifor, Gellifor, Rhuthun, LL15 1SG | Pennaeth: Ben Lindquist<br>Ffôn: 01824 790387<br>E-bost: gellifor@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 91 | 13 |
| Gwyddelwern (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Betws Gwerful Goch) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bro Elwern, Gwyddelwern, Corwen, LL21 9DF | Pennaeth: Catrin Phillips<br>Ffôn: 01490 412332<br>E-bost<br>ysgol.broelwern@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 48 | 6 |
| Henllan | Cynradd Cymunedol | Ysgol Henllan, | Pennaeth: Lynne Jones<br>Ffôn: 01745 812959 | 1 | 4 ~ 11 | 65 | 9 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd Dinbych, Henllan, LL16 5AW | E-bost: henllan@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Llanarmon-Yn-Iâl (Ysgol safle deuol Llanferres/ Llanarmon-Yn-Iâl) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bro Famau, Ffordd Eryrys, Llanarmon-Yn-Iâl, Yr Wyddgrug, CH7 4TB | Pennaeth: Elizabeth Knight<br>Ffôn: 01352 810242<br>E-bost: bro.famau@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 91 | 13 |
| Llanbedr | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Llanbedr Llanbedr Rhuthun LL15 1SU | Pennaeth: Susan Dick<br>Ffôn: 01824 702927<br>E-bost: llanbedr@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 77 | 11 |
| Llandegla | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Dyffryn Ial, Llandegla, LL21 3AW | Pennaeth: Shaun Valentine<br>Ffôn: 01978 790645<br>E-bost: ysgol.dyffrynial@sirddinbych.gov.uk | 4 | 4 ~ 11 | 60 | 8 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandyrnog (Mewn ffederasiwn ag Ysgol Gellifor) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog, LL16 4EY | Pennaeth: Ben Lindquist<br>Ffôn: 01824 790324<br>E-bost: llandyrnog@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 71 | 10 |
| Llanfair D.C. | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Llanfair, Llanfair, Dyffryn Clwyd, LL15 2RU | Pennaeth: Helen Oldfield<br>Ffôn: 01824 703169<br>E-bost: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk | 2 | 4 ~ 11 | 126 | 18 |
| Llanferres (Ysgol safle deuol Llanferres/ Llanarmon-Yn-Iâl) | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bro Famau, Llanferres, Yr Wyddgrug, CH7 5SP | Pennaeth: Elizabeth Knight<br>Ffôn: 01352 810242<br>E-bost: bro.famau@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 91 | 13 |
| Llangollen | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bryn Collen, Llangollen, | Pennaeth: Lisa Howden<br>Ffôn: 01978 861125<br>E-bost: bryn.collen@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 158 | 22 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | LL20 8AR | | | | | |
| Llangollen | Cynradd Cymunedol | Ysgol Gymraeg y Gwernant, Llangollen, LL20 8AR | Pennaeth: Gwyndaf Davies<br>Ffôn: 01978 861986<br>E-bost: ysgol.gwernant@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 135 | 19 |
| Llanrhaeadr | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr, LL16 4NL | Pennaeth: Ffion Higgins<br>Ffôn: 01745 890347<br>E-bost: bro.cinmeirch@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 85 | 12 |
| Gallt Melyd | Cynradd Cymunedol | Ysgol Melyd, Ffordd Pennant, Gallt Melyd, LL19 8PE | Pennaeth: Dafydd Jones<br>Ffôn: 01745 852782<br>E-bost: ysgol.melyd@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 147 | 21 |
| Pentrecelyn | Cynradd Cymunedol | Ysgol Pentrecelyn, Pentrecelyn, LL15 2HG | Pennaeth: Andrew Evans<br>Ffôn: 01978 790288<br>E-bost: pentrecelyn@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 56 | 8 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prestatyn | Cynradd Cymunedol | Ysgol Gymunedol Bodnant, Ffordd Plas y Nant, Prestatyn, LL19 9NW | Pennaeth: Helen Vernon<br>Ffôn: 01745 854724<br>E-bost:<br>ysgol.bodnant@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 420 | 60 |
| Prestatyn | Cynradd Cymunedol | Ysgol Clawdd Offa, Ffordd Clawdd Offa, Prestatyn, LL19 8AZ | Pennaeth: Martin Edwards<br>Ffôn: 01745 850124<br>E-bost:<br>ysgolclawddoffa@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 420 | 60 |
| Prestatyn | Cynradd Cymunedol | Ysgol Penmorfa, Dawson Drive, Prestatyn, LL19 8SY | Pennaeth: Sharon Davies<br>Ffôn: 01745 852757<br>E-bost:<br>ysgol.penmorfa@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 420 | 60 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prestatyn | Cynradd Cymunedol | Ysgol Y Llys, Prince's Avenue, Prestatyn, LL19 8RP | Pennaeth: Rhys Griffiths<br>Ffôn: 01745 853019<br>E-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 420 | 60 |
| Prion | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Pant Pastynog, Prion, LL16 4SG | Pennaeth: Meirion Edwards<br>Ffôn: 01745 890331<br>E-bost: pant.pastynog@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 54 | 7 |
| Rhuddlan | Cynradd Cymunedol | Ysgol y Castell, Rhuddlan, LL18 5AG | Pennaeth: Sara Tate<br>Ffôn: 01745 590545<br>E-bost: ysgol.ycastell@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 178 | 25 |
| Y Rhyl | Cynradd Cymunedol | Ysgol Bryn Hedydd, Y Rhyl, LL18 3SU | Pennaeth: Geraint Evans<br>Ffôn: 01745 351676<br>E-bost: bryn.hedydd@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 376 | 53 |
| Y Rhyl | Cynradd Cymunedol | Ysgol Christchurch, Ernest Street, | Pennaeth: Bethan Lindquist<br>Ffôn: 01745 353982 | 5 | 4 ~ 11 | 426 | 60 |

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Rhyl,<br>LL18 2DS | E-bost:<br>christ.church@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Y Rhyl | Cynradd Cymunedol | Ysgol Dewi Sant,<br>Ffordd Rhuddlan,<br>Rhyl,<br>LL18 2RE | Pennaeth: Mair Evans<br>Ffôn: 01745 351355<br>E-bost: dewi.sant@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 440 | 60 |
| Y Rhyl | Cynradd Cymunedol | Ysgol Emmanuel,<br>Ffordd Victoria,<br>Y Rhyl,<br>LL18 2EG | Pennaeth: Rona Jones<br>Ffôn: 01745 353447<br>E-bost:<br>ysgol.emmanuel@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 424 | 60 |
| Y Rhyl | Cynradd Cymunedol | Ysgol Llywelyn,<br>Ffordd Trellewelyn,<br>Y Rhyl,<br>LL18 4EU | Pennaeth: Nathan Jones<br>Ffôn: 01745 353392<br>E-bost:<br>ysgol.llywelyn@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 611 | 87 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Rhyl | Gwirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Gatholig Crist y Gair, Ffordd Cefndy, Y Rhyl, LL18 2EU | Pennaeth: TBC<br>Ffôn: 01745 352999<br>E-bost: christtheword@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 420 | 60 |
| Rhuthun | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Borthyn, Ffordd Ddinbych, Rhuthun, LL15 1NT | Pennaeth: Teleri Llwyd-Jones<br>Ffôn: 01824 702727<br>E-bost: borthyn@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 142 | 20 |
| Rhuthun | Cynradd Cymunedol | Ysgol Pen Barras, Ruthin, LL15 1QQ | Pennaeth: Dyfan Philips<br>Ffôn: 01824 704129<br>E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 315 | 45 |
| Rhuthun | Cynradd Cymunedol | Ysgol Stryd Y Rhos, Rhuthun, | Pennaeth: Andrew Davis<br>Ffôn: 01824 702565<br>E-bost: stryd.yrhos@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 210 | 30 |

**Ysgolion Sir Ddinbych. Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.**

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | LL15 1QQ | | | | | |
| Llanelwy | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Llanelwy (Babanod), Ffordd Dinbych Uwch, Llanelwy, LL17 0RL | Pennaeth: Kate Langford<br>Ffôn: 01745 583416<br>E-bost: stasaph.infants@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 7 | 89 | 29 |
| Llanelwy | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Esgob Morgan (Iau), Ashley Court, Llanelwy, LL17 OPT | Pennaeth: Tim Redgrave<br>Ffôn: 01745 583690<br>E-bost: esgob.morgan@sirddinbych.gov.uk | 5 | 7 ~ 11 | 96 | 24 |
| Trefnant | Gwirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Trefnant, Ffordd Henllan, Trefnant, LL16 5UF | Pennaeth: Susan Dick<br>Ffôn: 01745 730276<br>E-bost: trefnant@sirddinbych.gov.uk | 5 | 4 ~ 11 | 59 | 12 |

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tremeirchion | Gwirfoddol a Reolir | Ysgol Tremeirchion, Tremeirchion, Llanelwy, LL17 0UN | Pennaeth: Bethan Davies<br>Ffôn: 01745 710328<br>E-bost: tremeirchion@sirddinbych.gov.uk | 1 | 4 ~ 11 | 69 | 9 |

## 5.2 Ysgolion uwchradd

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Uwchradd Dinbych, | Pennaeth: Glen Williams<br>Ffôn: 01745 812485 | 4 | 11 ~ 18 | 984 | 160 |

| **Lleoliad** | **Statws** | **Ysgolion cynradd** | **Manylion cyswllt** | **Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20)** | **Ystod oedran** | **Capasiti'r Ysgol** | **Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd Rhuthun, Dinbych, LL16 3EX | E-bost: denbigh.high@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Dinbych | Gwirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Santes Ffraid, Plas yn Green, Dinbych, LL16 4BH | Pennaeth: Leah Crimes<br>Ffôn: 01745 816139<br>E-bost: st.brigids@sirddinbych.gov.uk | 4 | 11 ~ 18 | 346 | 56 |
| Llangollen | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Dinas Brân, Ffordd Dinbren, Llangollen, LL20 8TG | Pennaeth: Mark Hatch<br>Ffôn: 01978 860669<br>E-bost: dinas.bran@sirddinbych.gov.uk | 2b | 11 ~ 18 | 1,171 | 197 |
| Prestatyn | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Uwchradd Prestatyn, | Pennaeth: Neil Foley<br>Ffôn: 01745 852312<br>E-bost: prestatyn.high@sirddinbych.gov.uk | 4 | 11 ~ 18 | 1,774 | 289 |

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2 Rhodfa'r Tywysogion, Prestatyn, LL19 8RS | | | | | |
| Y Rhyl | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Uwchradd y Rhyl, Ffordd Grange, Y Rhyl, LL18 4BY | Pennaeth: Phillip Collins<br>Ffôn: 01745 343533<br>E-bost: rhyl.high@sirddinbych.gov.uk | 4 | 11 ~ 16 | 1,200 | 240 |
| Y Rhyl | Gwirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Gatholig Crist y Gair, Ffordd Cefndy, Y Rhyl, LL18 2EU | Pennaeth: TBC<br>Ffôn: 01745 352999<br>E-bost: cristygair@sirddinbych.gov.uk | 5 | 11 ~ 16 | 500 | 100 |
| Rhuthun | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Brynhyfryd, | Pennaeth: Trefor Jones<br>Ffôn: 01824 703933 | 2b* | 11 ~ 18 | 1,282 | 209 |

| Lleoliad | Statws | Ysgolion cynradd | Manylion cyswllt | Diffiniad cyfrwng Cymraeg (gweler tudalen 20) | Ystod oedran | Capasiti'r Ysgol | Nifer Derbyn ar gyfer Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun, LL15 1EG | E-bost: ysgol.brynhyfryd@sirddinbych.gov.uk | | | | |
| Llanelwy | Uwchradd Cymunedol | Ysgol Glan Clwyd, Ffordd Dinbych, Llanelwy, LL17 0RP | Pennaeth: Sian Alwen<br>Ffôn: 01745 582611<br>E-bost: ysgol.glanclwyd@sirddinbych.gov.uk | 1 | 11 ~ 18 | 1,192 | 205 |

*Mae 80% o leiaf o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond maent hefyd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

## 5.3 Ysgolion arbennig

| **Lleoliad** | **Ysgolion arbennig** | **Manylion cyswllt** |
|---|---|---|
| Dinbych | Ysgol Plas Brondyffryn,<br>Heol Y Parc,<br>Dinbych,<br>LL16 3DR | Pennaeth: David Price<br>Ffôn: (uwchradd) 01745 815385<br>Ffôn: (cynradd) 01745 813914<br>E-bost: (uwchradd) ysgolplasbrondyffrynsecondary@sirddinbych.gov.uk<br>E-bost: (cynradd) ysgolplasbrondyffrynprimary@sirddinbych.gov.uk |
| Y Rhyl | Ysgol Tir Morfa,<br>Ffordd Derwen,<br>Y Rhyl,<br>LL18 2RN | Pennaeth: Susan Roberts<br>Ffôn: (uwchradd) 01745 350388<br>Ffôn: (cynradd) 01745 361732<br>E-bost: ysgol.tirmorfa@sirddinbych.gov.uk |